

Coronafeirws: Crynodeb o'r Bil

23 Mawrth 2020



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/ymchwil

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6318**

E-bost: **Sarah.Hatherley@Cynulliad.Cymru**

Twitter: **[@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)**

Blog: **SeneddYmchwil.blog**

LinkedIn: **[Ymchwil y Senedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru](https://www.linkedin.com/company/ymchwil-y-senedd)**

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2020

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Coronafeirws: Crynodeb o'r Bil

23 Mawrth 2020

Awdur:

Sarah Hatherley, Nia Moss, Philippa Watkins and Hannah Johnson



Cynnwys

1. Cyflwyniad	1
2. Cefndir y Bil	3
3. Prif Elfennau'r Bil	4
3.1. Rhan 1 Cynyddu'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol sydd ar gael	4
3.2. Lleddfu'r baich ar staff rheng flaen, yn y GIG a thu hwnt.....	10
3.3. Oedi ac arafu'r firws	21
3.4. Urddas a pharch wrth reoli'r ymadawedig	24
3.5. Diogelu a chefnogi pobl	27
3.6. Rhan 2: Darpariaethau terfynol: Hyd a lled y pwerau a goruchwyliaeth Seneddol	29
4. Ymateb i'r Bil.....	35
4.1. Y goblygiadau o ran hawliau dynol	35
5. Goblygiadau ariannol y Bil.....	43
6. Y camau nesaf.....	44

1. Cyflwyniad

Ar 19 Mawrth 2020, cyflwynodd Llywodraeth y DU y **Bil Coronafeirws** Cyflwynwyd y Bil i Dŷ'r Cyffredin gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Matt Hancock AS, i ddarparu pwerau newydd, amser-gyfyngedig, i lywodraethau ledled y DU fynd i'r afael ag achosion o goronafeirws.

Mae'r Bil yn cynnig gwella gallu cyrff cyhoeddus ledled y DU i ddarparu ymateb effeithiol i fynd i'r afael â'r epidemig coronafeirws. Mae'r Bil yn ymdrin â phum maes allweddol: cynyddu'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol sydd ar gael; lleddfu'r baich ar staff rheng flaen; cyfyngu ar y feirws a'i arafu; trin y meirw gyda pharch ac urddas; a chefnogi pobl. Bwriedir i'r pwerau yn y Bil gael eu defnyddio dros dro mewn ymateb i sefyllfa o argyfwng.

Gan fod Bil Coronafeirws Llywodraeth y DU yn dymuno deddfu ar bwnc sydd eisoes wedi'i ddatganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, mae gofyn iddi gael cydsyniad y Cynulliad cyn pasio'r ddeddfwriaeth dan sylw. Disgwylir i Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei osod yn y Cynulliad ddydd Llun 24 Mawrth 2020.

Mae Bil y DU yn cael ei gyflwyno mewn amgylchiadau digynsail, ac er mwyn galluogi llywodraethau ledled y DU i ymateb i sefyllfa o argyfwng a rheoli effeithiau pandemig, ni fydd Pwyllgorau'r Cynulliad yn craffu ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn y ffordd arferol. Bydd cyfle i Aelodau'r Cynulliad graffu arno yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 24 Mawrth 2020.

Ar 17 Mawrth 2020, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol **ddatganiad ysgrifenedig** gan ddatgan bod nifer yr achosion neu drosglwyddiad coronafeirws yn fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd y cyhoedd, a gosododd y **Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws) (Cymru) 2020** i helpu i oedi neu atal trosglwyddo'r feirws ymhellach. Arferodd Llywodraeth Cymru ei phwerau ymhellach o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1984 ar 20 Mawrth 2020. Cyflwynwyd **Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Cau Busnes) (Cymru) 2020** er mwyn cau bwytai, tafarndai, caffis a chyfleusterau eraill lle y mae pobl yn ymgynnull, ac maent yn dod i rym ar unwaith.

Cynhaliodd Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Cynulliad sesiwn **dystiolaeth lafar** ar y Bil gyda Vaughan Gething AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ddydd Mercher 18 Mawrth 2020. Canolbwyntiodd y Prif Weinidog, Mark Drakeford AC, ar y Bil Coronafeirws yn ei **ddiweddariad llafar** ddydd Iau 19 Mawrth 2020.

Mae Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin wedi llunio **cyfres o bapurau briffio** ar y Bil. Mae'r Llyfrgell hefyd wedi cyhoeddi'r papur briffio a ganlyn: '**Deploying the armed forces in the UK**'. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU yr wythnos diwethaf y bydd hyd at 20,000 o bersonél milwrol wrth law i gefnogi'r gwasanaethau cyhoeddus fel rhan o Gymhorthlu COVID newydd.

Mae tudalen ar wefan Llywodraeth Cymru, sef **Coronafeirws (COVID-19)**, sy'n rhoi rhestr o ddatganiadau Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd mewn perthynas â'r feirws ac sy'n cael ei diweddarau'n rheolaidd.

Mae'r papur briffio hwn yn rhoi crynodeb o effaith bosibl y Bil Coronafeirws ar Gymru. Ar adeg cyhoeddi'r papur briffio hwn, nid oedd Llywodraeth Cymru wedi gosod y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol eto.

2. Cefndir y Bil

Mae Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin wedi cyhoeddi **papur briffio cefndirol ynghylch coronafeirws**, sy'n trafod beth yw'r feirws a'r ystadegau perthnasol, ac ymateb Llywodraeth y DU iddo. Mae Ymchwil y Senedd hefyd yn diweddarau ei **llinell amser ar-lein**, sy'n nodi'r camau a'r mesurau sy'n cael eu cymryd gan lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wrth ymdrin â'r achosion coronafeirws.

Roedd **Cynllun gweithredu coronafeirws** Llywodraeth y DU, a gyhoeddwyd ar 3 Mawrth 2020, yn nodi mesurau i ymateb i'r achosion o goronafeirws. Mae'r cynllun gweithredu ar y cyd rhwng Llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn nodi ymateb fesul cam i'r feirws.

Camau cyffredinol y cynllun gweithredu yw:

- **Cyfyngu:** canfod achosion cynnar, mynd ar drywydd cysylltiadau agos, ac atal y clefyd rhag cydio yn y DU cyhyd ag sy'n rhesymol bosibl.
- **Oedi:** arafu'r ymlediad yn y DU, os bydd yn cydio, gan leihau'r effaith pennaf a'i wyro i ffwrdd o dymor y gaeaf.
- **Ymchwil:** deall y feirws yn well a'r camau a fydd yn lleihau ei effaith ar boblogaeth y DU; bod yn arloesol wrth ymateb gan gynnwys diagnosteg, cyffuriau a brechlynnau; defnyddio'r dystiolaeth i lywio datblygiad y modelau gofal mwyaf effeithiol.
- **Lliniaru:** cynnig y gofal gorau posibl i bobl sy'n mynd yn sâl, cefnogi ysbytai i gynnal gwasanaethau hanfodol a sicrhau cefnogaeth barhaus i bobl sy'n sâl yn y gymuned i leihau effaith gyffredinol y clefyd ar gymdeithas, gwasanaethau cyhoeddus ac ar yr economi.

Bwriad y Bil yw rhoi'r pwerau sydd eu hangen ar gyrrff cyhoeddus ledled y DU i ddarparu ymateb effeithiol i'r epidemig coronafeirws, fel y nodir yn y cynllun gweithredu. Mae llywodraethau'r DU wedi gweithio gyda'i gilydd i gytuno ar y ddeddfwriaeth, er mwyn sicrhau bod ymateb y DU yn gyson ac yn effeithiol.

Bwriedir i'r Bil fod â therfyn amser – sef dwy flynedd – ac ni fydd pob un o'r mesurau yn dod i rym ar unwaith. Mae'r Bil yn caniatáu i bedair llywodraeth y DU arfer y pwerau newydd pan fydd eu hangen, ac, yn hollbwysig, peidio â'u harfer pan nad oes eu hangen mwyach, yn seiliedig ar gyngor Prif Swyddogion Meddygol y pedair gwlad. Mesurau dros dro yw'r mesurau yn y Bil Coronafeirws.

3. Prif Elfennau'r Bil

Diben y **Bil Coronafeirws** yw darparu'r pwerau sydd eu hangen i ymateb i bandemig coronafeirws. Mae Rhan 1 yn nodi prif ddarpariaethau'r Bil (cymalau 1-70). Mae Rhan 2 yn cwmpasu'r darpariaethau terfynol (cymalau 71-87). I gydfynd â'r Bil, mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi crynodeb ar [Gov.uk](https://www.gov.uk) ac mae crynodeb yn y **Nodiadau Esboniadol** hefyd, ar dudalennau 5 i 20. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ei **Hasesiad effaith**.

3.1. Rhan 1

Cynyddu'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol sydd ar gael

Mae'r Bil yn darparu ar gyfer helpu i gynyddu'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol sydd ar gael, ac i leihau nifer y tasgau gweinyddol y mae'n rhaid iddynt eu cyflawni fel y gall gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol hanfodol weithredu pan fydd yr epidemig ar ei anterth. Bwriad y mesurau yw lleihau'r pwysau yn sgil y nifer gynyddol o bobl sy'n mynd yn sâl â COVID-19 y mae angen triniaeth feddygol arnynt, ochr yn ochr â'r pwysau yn sgil absenoldeb staff cynyddol, os bydd staff yn sâl neu'n hunanynysu gyda'u cartrefi. Mae'r Bil yn cynnwys y darpariaethau a ganlyn:

Rheoleiddio gweithwyr gofal iechyd proffesiynol

Mae'r Bil yn galluogi rheoleiddwyr i gofrestru pobl addas mewn argyfwng fel gweithwyr gofal iechyd proffesiynol rheoledig, fel nyrsys, bydwagedd neu barafeddygon. Mae hyn yn cynnwys gweithwyr proffesiynol sydd wedi ymddeol yn ddiweddar a myfyrwyr sydd bron â gorffen eu hyfforddiant (ond nid yw'n gyfyngedig i'r bobl hynny).

Mae Cymal 2 ac Atodlen 1 i'r Bil yn darparu y caiff y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal gofrestru gweithwyr iechyd a gweithwyr gofal ar frys ledled y DU. Mae gan **y Cyngor Meddygol Cyffredinol** a'r **Cyngor Fferyllol Cyffredinol** bwerau eisoes i gofrestru meddygon a fferyllwyr yn y DU mewn argyfwng ac mae'r Bil yn bwriadu rhoi pwerau tebyg i'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal. Drwy sicrhau bod yr adnodd clinigol ychwanegol hwn ar gael yn y system, y bwriad yw helpu i leddfu'r baich ar wasanaethau. Mae'r newid hwn i'r gofynion rheoliadol yn fater a gedwir yn ôl, gyda Llywodraeth y DU yn gweithredu ar ran pedair gwlad y DU.

Unwaith y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn rhoi hysbysiad o argyfwng,

mae'r Nodiadau Esboniadol yn nodi y caiff cofrestryddion y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth a'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal gofrestru pobl cymwys, priodol, sydd â phrofiad addas, dros dro fel gweithwyr gofal iechyd proffesiynol rheoledig. Bydd gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth bwerau hefyd i gynyddu cyfrifoldebau cofrestryddion os bydd argyfwng yn cynnwys salwch neu farwolaethau – er enghraifft drwy alluogi nyrsys (nad ydynt eisoes yn gymwys i wneud hynny) i archebu cyffuriau, meddyginiaethau ac offer mewn rhinwedd benodol ar gyfer yr argyfwng.

Mae Atodlen 1, Adran 1(2) o'r Bil yn nodi na chodir unrhyw ffioedd cofrestru am gynnwys pobl ar y cofrestrau hyn dros dro.

Ym Mhwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Cynulliad ar 18 Mawrth 2020, cadarnhaodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol na fyddai unigolion sydd wedi ymddeol yn cael eu gorfodi i ddychwelyd i weithio, ac y byddai angen gwneud penderfyniadau yn lleol ar sut i ddefnyddio staff newydd a staff sy'n dychwelyd sydd wedi'u cofrestru ar frys, gan nodi:

Because a range of those people may be in higher risk categories, we're even thinking about non-contact work that they may still be able to do to help bolster front-line services. (paragraff 169)

Gall cofrestriad dros dro unigolyn ddod i ben os na fydd yr amgylchiadau a arweiniodd at y cofrestriad brys yn bodoli mwyach, ac am resymau eraill, gan gynnwys os bydd y cofrestrydd yn amau efallai nad yw'r unigolyn yn ddigon cymwys i ymarfer.

Yn ôl yr asesiad effaith ar gyfer y Bil, nid yw'n hysbys faint o weithwyr proffesiynol sydd wedi'u cofrestru o dan y pwerau yn y Bil a fydd yn barod i ddarparu gwasanaethau. Cyhoeddodd Prif Swyddog Meddygol, Prif Swyddog Nyrsio a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru **ar 21 Mawrth 2020** fod tua 5,000 o lythyrau wedi'u hanfon at bobl sydd wedi gadael neu ymddeol yn ystod y tair blynedd diwethaf, yn gofyn iddynt ailgofrestru gyda'u cyrff proffesiynol perthnasol. Gofynnir iddynt pa rôl y gallent ei chwarae a faint o amser y gallant ei neilltuo. Yn ôl y datganiad hwn hefyd, nodwyd bod Llywodraeth Cymru yn ystyried ffyrdd o fanteisio ar sgiliau myfyrwyr yn eu blwyddyn olaf ar gyrsiau meddyginiaeth, nyrsio a gwaith cymdeithasol, sy'n cael cynnig cyfle i ymgymryd â rolau dros dro, ar gyflog llawn, er mwyn atgyfnerthu'r rheng flaen ymhellach.

Daw'r darpariaethau hyn i rym ar y diwrnod y caiff y Ddeddf ei phasio. Mae'r cyrff rheoleiddio perthnasol, y Colegau Brenhinol a'r undebau llafur wedi nodi eu cefnogaeth i'r cynigion cofrestru brys, ac mae'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

wedi **cyhoeddi datganiad** sy'n amlinellu cyfres o gamau â'r bwriad o hwyluso'r broses o ehangu'r gweithlu nyrsio.

Rheoleiddio gweithwyr cymdeithasol dros dro

Byddai Cymal 5 ac Atodlen 4 i'r Bil hefyd yn galluogi rheoleiddwyr yng Nghymru a Lloegr i ychwanegu gweithwyr cymdeithasol dros dro at eu cofrestrau a allai fod wedi gadael y proffesiwn yn ddiweddar, er mwyn sicrhau parhad gofal i blant ac oedolion sy'n agored i niwed. Mae Atodlen 4, Adran 2 yn ymwneud yn benodol â Chymru ac yn diwygio adran 83 o Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016. Bydd cofrestrydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn gallu cofrestru pobl cymwys, priodol, sydd â phrofiad addas, dros dro mewn perthynas ag argyfwng, fel gweithwyr cymdeithasol. Fel y nodwyd uchod, mae trefniadau ar waith yng Nghymru i gysylltu â'r rheini sydd wedi gadael y sector gwaith cymdeithasol yn ddiweddar, yn ogystal â myfyrwyr gwaith cymdeithasol sydd yn eu blwyddyn olaf.

Bydd cofrestriad person o dan y rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i unrhyw amodau a osodir gan gofrestrydd Gofal Cymdeithasol Cymru, a all ddirymu neu amrywio'r amodau hynny ar unrhyw adeg.

Mae asesiad effaith y Bil yn nodi na fydd rwymedigaeth ar unigolion sy'n gymwys i gael eu cofrestru mewn argyfwng wneud hynny, a bydd yn cael ei drefnu ar sail wirfoddol. Bydd Llywodraeth Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru yn gweithio gyda chyflogwyr i sefydlu sut y gellid defnyddio'r gweithwyr cymdeithasol ychwanegol hyn orau.

Mae Atodlen 4, Adran 2(11) o'r Bil yn cadarnhau na chodir unrhyw ffioedd cofrestru am gynnwys pobl ar y cofrestrau hyn dros dro. Mae Adrannau 2(10) ac (11) yn nodi y daw cofrestriad dros dro i ben o fewn 14 o ddiwrnodau os na fydd yr amgylchiadau a arweiniodd at y cofrestriad brys yn bodoli mwyach, neu ar unwaith am resymau eraill, gan gynnwys os bydd y cofrestrydd yn amau efallai nad yw'r unigolyn yn ddigon cymwys i ymarfer.

Daw'r darpariaethau hyn i rym ar y diwrnod y caiff y Ddeddf ei phasio.

Gwirfoddoli

Mae Cymal 7 ac Atodlen 6 yn galluogi cyflogeion a gweithwyr i gymryd Absenoldeb Gwirfoddolwr Brys, ac mae Cymal 8 yn sefydlu cronfa iawndal ar gyfer y DU gyfan i wneud iawn am golli enillion a threuliau. Diben y ddarpariaeth

hon yw sicrhau na fydd gwirfoddolwyr yn dioddef anfantais ariannol o ganlyniad i wirfoddoli i ymgymryd â rôl iechyd neu ofal cymdeithasol.

Mae'r Bil yn creu hawl i absenoldeb gwirfoddoli brys (emergency volunteer leave). Bydd gan weithiwr hawl i gymryd cyfnod o absenoldeb gwirfoddoli brys os bydd wedi cael tystysgrif gwirfoddoli brys, a gyhoeddir gan awdurdod priodol sy'n nodi bod yr unigolyn wedi'i gymeradwyo fel gwirfoddolwr ym maes iechyd neu ofal cymdeithasol. Yr awdurdodau priodol yng Nghymru yw Gweinidogion Cymru, a chynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol.

Rhaid i'r dystysgrif nodi'r dyddiadau pryd y bydd y gweithiwr yn gwirfoddoli, a rhaid i'r cyfnod hwnnw fod yn ddwy, tair neu bedair wythnos yn olynol. Rhaid i'r gweithiwr roi o leiaf dri diwrnod o rybudd i'w gyflogwr cyn cymryd absenoldeb gwirfoddoli brys. Nid yw'r Bil yn rhagnodi'r math o waith y gellir cyhoeddi tystysgrif ar ei gyfer, ond mae'n rhaid iddo ymwneud ag iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'r Bil yn nodi rhai eithriadau i'r hawl absenoldeb gwirfoddoli brys, gan gynnwys gweithwyr mewn busnesau sydd â llai na 10 aelod o staff, a staff yn Nhŷ'r Cyffredin a'r gweinyddiaethau datganoledig.

Dim ond unwaith ym mhob cyfnod gwirfoddoli y caiff gweithiwr gymryd absenoldeb gwirfoddoli brys, a bydd y cyfnod gwirfoddoli cyntaf 16 o wythnosau i'r dyddiad y daw Atodlen 6 i rym. Gall yr Ysgrifennydd Gwladol wneud rheoliadau i greu cyfnodau gwirfoddoli dilynol sy'n para 16 o wythnosau.

Mae'r Bil hefyd yn cyflwyno pwerau i greu cynllun i wneud iawn am rywfaint o'r enillion a gollwyd a'r treuliau a ysgwyddwyd gan wirfoddolwyr. Fel y nodir yn y Bil, darperir y symiau sydd eu hangen i dalu'r iawndaliadau hyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol gan ddefnyddio'r arian a ddarperir gan Senedd y DU. Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi manylion y trefniadau iawndal a'u gosod gerbron y Senedd cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl iddynt gael eu gwneud.

Mae Atodlen 6 hefyd yn darparu ystod o fesurau amddiffyn cyfraith cyflogaeth i weithwyr sy'n cymryd absenoldeb gwirfoddoli brys, gan gynnwys amddiffyn hawliau pensiwn, telerau ac amodau cyflogaeth a lefel awdurdod y cyflogai. Mae Rhan 3 o Atodlen 6 hefyd yn addasu Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996, gan gynnwys adran 104H newydd, sy'n amddiffyn gweithiwr rhag cael ei ddiswyddo am gymryd neu geisio cymryd absenoldeb gwirfoddoli brys.

Fel y dywed y Nodiadau Esboniadol, bydd y mesurau hyn yn galluogi awdurdodau priodol perthnasol i fanteisio cymaint â phosibl ar y gronfa o wirfoddolwyr sydd ar gael i lenwi bylchau capasiti drwy fynd i'r afael â dau brif rwystr i gymryd rhan, sef

y risg i gyflogaeth a hawliau cyflogaeth, a cholli incwm.

Indemniad

Mae Cymal 10 yn darparu indemniad ar gyfer rhwymedigaethau esgeulustod clinigol sy'n deillio o weithgareddau'r GIG a gyflawnir at ddibenion ymdrin â'r achosion o goronafeirws, neu oherwydd yr achosion o goronafeirws, os na fydd trefniadau indemniad eisoes ar waith. Bydd hyn yn sicrhau bod y rhai sy'n darparu gwaith gwasanaeth gofal iechyd ledled y DU yn cael eu diogelu'n gyfreithiol am y gwaith y mae'n ofynnol iddynt ei wneud wrth ymateb i COVID-19. Bydd hyn yn cyd-fynd â'r trefniadau presennol ac yn eu hategu. Mae'r Nodiadau Esboniadol yn nodi:

This indemnity is intended to act as a 'safety net' where clinical negligence arising from the provision of such services is not already covered under a pre-existing indemnity arrangement, for example under state indemnity schemes, private medical defence organisation or commercial insurance policies or through membership of a professional body (tudalen 8).

Mae'r trefniadau indemniad presennol yng Nghymru yn cynnwys indemniad y wladwriaeth am esgeulustod clinigol, indemniad a ddarperir gan **Gronfa Risg Cymru** a'r **Cynllun Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol**, sy'n darparu cynllun a gefnogir gan y wladwriaeth i ddarparu indemniad esgeulustod clinigol ar gyfer darparwyr gwasanaethau meddygon teulu yng Nghymru.

Ym Mhwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Cynulliad ar 18 Mawrth 2020 dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod y Cymal hwn yn gysylltiedig â'r prosesau o ran cofrestru staff ar frys a'u hailintegreiddio'n ddiffwdan:

...to make sure that indemnity provision is available, so they don't have to take on personal risk (paragraff 181).

Mae asesiad effaith y Bil yn nodi'r effaith sylweddol ar y galw am wasanaethau gofal iechyd a ddaw yn sgil achosion COVID-19, ac er y byddai'r ddarpariaeth indemniad bresennol yn ddigonol yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yn ofynnol i staff y GIG:

assist in dealing with the response to the coronavirus outbreak and may, in some instances, be asked to undertake NHS activities that are not part of their normal day-to-day work...

...We expect that this might include the temporary alteration of some practices to enable effective healthcare to continue to be administered across the wider sector.

Ar 3 Mawrth 2020, cyhoeddodd Prif Weithredwyr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth, y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal a chyrrff statudol eraill sy'n rheoleiddio gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol **ddatganiad ar y cyd**, gan gydnabod bod yn rhaid i weithwyr proffesiynol, wrth ymdrin ag achosion, ddefnyddio eu barn broffesiynol i asesu'r risg wrth ddarparu gofal diogel, gan ddilyn y canllawiau perthnasol, ond nodwyd hefyd:

We recognise that in highly challenging circumstances, professionals may need to depart from established procedures in order to care for patients and people using health and social care services.

Pensiynau'r GIG

Mae Cymal 43 (ar gyfer Cymru a Lloegr) yn atal rheol Cynllun Pensiwn y GIG sydd ar hyn o bryd yn atal rhai o aelodau staff y GIG sy'n dychwelyd i'r gwaith ar ôl ymddeol rhag gweithio mwy nag 16 awr yr wythnos, ynghyd â rheolau ar ostyngiadau a thynnu arian i lawr o bensiynau'r GIG sy'n berthnasol i rai pobl wedi ymddeol sy'n dychwelyd i'r gwaith. Diben hyn yw caniatáu i staff medrus a phrofiadol sydd wedi ymddeol o'r GIG yn ddiweddar dychwelyd i'r gwaith, a bydd hefyd yn caniatáu i staff sydd wedi ymddeol sydd eisoes wedi dychwelyd i'r gwaith gynyddu eu hymrwymiaid os oes angen, heb atal eu buddiannau pensiwn. (Mae cymalau 44 a 45 yn ymwneud â'r trefniadau pensiwn yn yr Alban a Gogledd Iwerddon yn y drefn honno).

Nodir yn y Nodiadau Esboniadol:

It is important that restrictions on returning to work whilst in receipt of a pension do not act as a disincentive for healthcare professionals who wish to re-enter the workforce in order to assist the healthcare response to covid-19. The Bill will therefore suspend certain rules that apply in the NHS Pension Scheme in England and Wales so that healthcare professionals who have recently retired can return to work and those who have already returned can increase their hours without there being a negative impact on their pension entitlements.

Daeth i'r amlwg yn ddiweddar y gall y rheolau pensiwn cyfredol gael **effaith ariannol negyddol** ar uwch glinigwyr y GIG sy'n ymgymryd â gwaith ychwanegol i gyflenwi sifftiau.

Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Mae'r rheoliadau sy'n berthnasol i ddarparwyr gwasanaeth gofal cymdeithasol a darparwyr gofal iechyd yng Nghymru yn cynnwys gofynion fetio drwy weithdrefnau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer staff cyn y caniateir

iddynt ddechrau gweithio. Byddai cymal 31 o'r Bil yn caniatáu i Weinidogion Cymru gyhoeddi hysbysiad yn anghymwyso neu'n amrywio'r gofynion hyn, er mwyn darparu mwy o hyblygrwydd i ddarparwyr fynd i'r afael â materion o ran y gweithlu.

Rhaid i hysbysiadau a gyhoeddir fel hyn gynnwys datganiad gan Weinidogion Cymru, yn egluro pam fod y cam yn briodol ac yn gymesur. Bydd hysbysiadau yn effeithiol am fis er y caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi rhagor o hysbysiadau yn ogystal â'u canslo (Cymal 31(6)).

Ym Mhwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Cynulliad ar 18 Mawrth 2020, Dywedodd swyddogion Llywodraeth Cymru:

We've asked for specific DBS checks to be relaxed in order to facilitate these new workforce people coming into the system. The reason we've asked for that is we're in a slightly different position to England. They already had arrangements with the DBS to have a system where they could allow people to start working while they were waiting for their full application to come through. So, the certificates will still be obtained, but it's about being able to let people start helping straight away while the certificate process is being looked at. (paragraff 194)

Mae cymal 31(10) yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi rhybudd yn ymwneud â'r adran hon a chymryd camau i'w ddwyn i sylw'r rhai sy'n debygol o gael eu heffeithio.

Mae Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin wedi cyhoeddi **papur briffio ar y mesurau iechyd a gofal cymdeithasol** yn y Bil, sy'n nodi'r darpariaethau yn y Bil fel y maent yn berthnasol i'r pedair gwlad.

3.2. Lleddfu'r baich ar staff rheng flaen, yn y GIG a thu hwnt

Mae'r Bil yn gwneud darpariaethau mewn rhannau eraill o'r GIG ac mewn sectorau eraill y mae eu gweithgareddau'n hanfodol i gadw'r wlad yn rhedeg yn ddiogel. Mae hyn yn cynnwys gofalu am blant mewn addysg, amddiffyn ein ffiniau, cadw a thrin pobl o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, cefnogi awdurdodau lleol a sicrhau diogelwch cenedlaethol. Mae'r Bil yn cyflwyno mesurau i leihau nifer y tasgau gweinyddol y mae'n rhaid iddynt eu cyflawni, gan ganiatáu i weithwyr allweddol gyflawni mwy o dasgau o bell a gyda llai o waith papur, ac i alluogi'r gwasanaethau hyn i barhau i weithredu'n effeithiol yn ystod cyfnodau pan fydd llai o staff. Mae'r Bil yn cynnwys y darpariaethau a ganlyn:

Iechyd meddwl

Mae Cymal 9 ac Atodlen 7 yn cynnwys darpariaethau i wneud newidiadau brys, dros dro i Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 sy'n gymwys i Gymru a Lloegr. Mae Rhan 2 o'r Atodlen yn nodi'r addasiadau a ddaw i fod os yw'r sector iechyd meddwl yn profi cyfyngiadau digynsail ar adnoddau, sy'n arwain at risg sylweddol i ddiogelwch cleifion.

Mae Atodlen 7, Rhan 2 (adran 3) yn nodi'r addasiadau hyn, gan gynnwys darpariaethau i alluogi pwerau deddfu iechyd meddwl presennol i gadw a thrin cleifion y mae arnynt angen triniaeth frys ar gyfer anhwylder iechyd meddwl, ac sy'n risg iddynt hwy eu hunain neu eraill, i gael eu gweithredu drwy ddefnyddio barn un meddyg yn unig (yn hytrach na dau fel y mae ar hyn o bryd). Y diben yw sicrhau bod y rhai sy'n risg iddynt hwy eu hunain neu eraill yn dal i gael y driniaeth y mae arnynt ei hangen pan fydd llai o feddygon ar gael i ymgymryd â'r swyddogaeth hon.

Mae adrannau 4 a 5 yn caniatáu ar gyfer ymestyn neu ddileu terfynau amser dros dro yn y ddeddfwriaeth iechyd meddwl er mwyn caniatáu mwy o hyblygrwydd pan fo llai o gapasiti gan wasanaethau i ymateb. Mae'n golygu y gallai cleifion gael eu cadw am fwy o amser nag y byddent wedi bod dan amgylchiadau arferol – o dan adran 5 (mesurau cadw brys i bobl sydd eisoes yn yr ysbyty, a fyddai'n ymestyn o 72 awr i 120 awr, a byddai pwerau dal nyrsys yn ymestyn o 6 i 12 awr); ac o dan adrannau 135 a 136 (byddai pwerau'r heddlu i gadw person y mae arno angen gofal ar unwaith mewn "man diogel" yn ymestyn o 24 awr i 36 awr). Mae dogfen gryno Llywodraeth y DU yn nodi mai dim ond pan fyddai effaith andwyol ddifrifol ar nifer y staff yn ystod cyfnod y pandemig y byddai'r newidiadau dros dro hyn yn cael eu cyflwyno.

Mae'r Bil hefyd yn gwneud darpariaeth (Rhan 2, adran 9) i ganiatáu i'r clinigwr sy'n gyfrifol am driniaeth claf ardystio ei bod yn briodol rhoi meddyginiaeth i'r claf heb gydsyniad (fel arfer rhaid i feddyg gwahanol ardystio hyn) .

Yn achos diffynyddion a charcharorion sydd â chyflwr iechyd meddwl (Rhan 2, adrannau 6 a 7), mae'r Bil yn caniatáu mwy o amser i berson gael ei gadw ar remánd yn yr ysbyty, a mwy o amser i drosglwyddo carcharor o'r carchar i'r ysbyty, gan ganiatáu mwy o amser cyn y byddai cyfarwyddyd i drosglwyddo yn dod i ben. Byddai'r newidiadau hyn hefyd yn caniatáu i un meddyg, yn hytrach na dau, gynghori llysoedd, carchardai a'r Ysgrifennydd Gwladol ar yr angen i berson gael gofal seiciatryddol.

Mynegwyd pryderon gan elusennau iechyd meddwl mewn ymateb i lacio mesurau diogelu cyfreithiol yn Neddf Iechyd Meddwl 1983 er mwyn rhyddhau staff meddygol, ond mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn mynnu mai dros dro yw'r pwerau hyn, ac mai dim ond mewn sefyllfa frys y dânt i fod. Fodd bynnag, codwyd pryderon y gallai hyn arwain at gadw unigolion bregus yn ddiangen y tu hwnt i'w hadran oherwydd pwysau'r gweithlu neu, yn yr un modd, y gallai unigolion gael eu rhyddhau'n gynnar heb y driniaeth neu'r gefnogaeth feddygol briodol oherwydd pwysau ar y gweithlu neu'r ystâd iechyd meddwl.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Angela Burns AC, yng nghyfarfod Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Cynulliad ar 18 Mawrth 2020, cadarnhaodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai'r darpariaethau yn y Bil i ddiwygio Deddf Iechyd Meddwl 1983 ar waith ar gyfer cyfnod dwy flynedd y Bil, ond pwysleisiodd y byddai'r mesurau'n cael eu troi ymlaen ar adegau penodol yn unig, gyda'r pwerau'n cael eu harfer ar gyngor y Prif Swyddog Meddygol (neu swyddog arall a enwebir). Gan roi rhagor o fanylion, esboniodd Neil Surman, Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd yn Llywodraeth Cymru, y canlynol:

In relation to the clauses in the Bill that can be switched on and off depending upon the circumstances and the need that arises, the changes to mental health legislation, for instance, is one of those. Of course, we've already done an analysis on our understanding of the current Bill—we're yet to see the final version—of both what provisions are devolved and non-devolved, which provisions involve the exercise of concurrent functions and powers and which amongst all of these clauses could be turned on or off. There is a sharp distinction in the Bill and we have sought with, again, UK and other devolved Government colleagues, to present it in such a way that it's a Bill of two halves, almost. There are those provisions that will have a life for the two-year period of the Bill until it sunsets, and those are the provisions that are enabling and supportive of the types of interventions that the committee expressed an interest in a little earlier.

So, where we're seeking to be helpful, to remove restrictions, to provide compensation and other types of support, those provisions will be in play for the life of the Bill—hopefully the Act. There are many more, though, such as those you've just described, that involve potentially quite significant infringements on individual liberty and freedom, and those provisions we very deliberately want only to be exercised on the basis of a turn off, turn on, when they're needed under the advice in Wales of the chief medical officer or other qualified professionals so that Ministers are properly advised on the appropriate circumstances when such drastic action might be needed. But it is not the intention that these things should apply throughout the course of the next two years.

Asesiadau gofal iechyd parhaus y GIG

Mae Cymal 13 o'r Bil yn newid y weithdrefn ar gyfer rhyddhau o ysbyty aciwt ar gyfer y rhai ag angen gofal cymdeithasol, drwy ganiatáu i ddarparwyr y GIG ohirio cynnal asesiad gofal iechyd parhaus y GIG yn ystod yr argyfwng. Mae hyn yn gymwys i Loegr yn unig.

Yng nghyfarfod Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Cynulliad ar 18 Mawrth 2020, esboniodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol fod darpariaethau sy'n ymwneud â gofal iechyd parhaus y GIG yn gymwys i Loegr, a chytunodd y Gweinidog i roi nodyn i'r Pwyllgor yn nodi'r gwahaniaethau yn y ffordd y mae gofal iechyd parhaus yn gweithio yng Nghymru a Lloegr ac ynghylch rhyddhau pobl o'r ysbyty. Nid yw'r nodyn hwnnw wedi dod i law na chael ei gyhoeddi eto.

Gofal a chymorth awdurdodau lleol

Mae Cymal 14 ac Atodlen 11 yn lleihau'r dyletswyddau ar awdurdodau lleol i gynnal asesiadau o anghenion ac i ddiwallu anghenion gofal a chymorth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r Ddeddf Gofal (2014) yn Lloegr. Mae Rhan 2 o Atodlen 11 yn ymdrin â phwerau a dyletswyddau awdurdodau lleol yng Nghymru (mae Rhan 1 yn ymdrin â Lloegr).

Ni fyddai'r dyletswyddau ar awdurdodau lleol yn Rhannau 3 a 4 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i asesu anghenion oedolion am ofal a chymorth (ac anghenion gofalwyr sy'n oedolion am gymorth), ac i ddiwallu anghenion penodol yn gymwys mwyach. Dim ond pan fo oedolyn neu ofalwr sy'n oedolyn yn cael, neu'n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso y byddai dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddiwallu anghenion am ofal a chymorth.

Byddai gan awdurdodau lleol y pŵer o hyd i ddiwallu anghenion eraill ac mae'r Nodiadau Esboniadol yn nodi y bydd disgwyl iddynt ddal wneud hynny os gallant, ac i flaenoriaethu'r ddarpariaeth yn ôl yr angen.

Bydd gan Lywodraeth Cymru (ac Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lloegr) y pŵer i gyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol ynghylch sut y maent yn arfer eu swyddogaethau o dan y ddeddfwriaeth, ac i gyfarwyddo awdurdodau lleol i gydymffurfio â'r canllawiau.

Hefyd, mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi [**'Responding to COVID-19: the**](#)

ethical framework for adult social care'. Bwriad y fframwaith yw bod yn ganllaw ar gyfer gwneud penderfyniadau a sicrhau yr ystyrir amryfal werthoedd ac egwyddorion moesegol yn ddigonol wrth drefnu a darparu gofal cymdeithasol i oedolion.

Asesiadau

Ar hyn o bryd, mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnal asesiad anghenion pan fo'n ymddangos bod ar unigolyn angen gofal a chymorth neu fod ar ofalwr angen cymorth (Rhan 3 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014).

Mae'r darpariaethau yn y Bil yn dileu'r dyletswyddau hyn, felly ni fyddai gofyniad i gynnal asesiadau o anghenion ar gyfer oedolion (gan gynnwys gofalwyr oedolion). Ni fyddai dyletswydd chwaith i gynnal asesiadau ariannol (cymhwysir prawf modd ar hyn o bryd ac mae unigolion, fel arfer, yn cyfrannu at gostau gofal) a, heb asesiad ariannol, ni chaniateir codi tâl am wasanaethau.

Fodd bynnag, pan nad yw awdurdod lleol wedi codi tâl ar berson am ei ofal yn ystod y pandemig, mae'r Bil yn darparu ar gyfer y pŵer i gymhwyso taliadau yn ôl-weithredol, yn amodol ar asesiad ariannol.

Diwallu anghenion gofal a chymorth

Byddai'r dyletswyddau presennol ar awdurdodau lleol i benderfynu cymhwysedd ar gyfer gwasanaethau statudol, ac i ddiwallu anghenion gofal a chymorth cymwys oedolion, (ac anghenion cymorth gofalwyr sy'n oedolion) yn cael eu dileu. Yr unig ddyletswydd ar awdurdodau lleol yng Nghymru i ddiwallu anghenion fydd pan fo oedolyn neu ofalwr oedolyn yn cael, neu'n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso.

Bydd awdurdodau lleol yn dal i feddu ar bŵer disgrisiwn i ddiwallu anghenion eraill.

Yn ychwanegol, ni fyddai'n rhaid i awdurdod lleol gydymffurfio â dyletswyddau presennol o ran ceisio darparu ar gyfer dewis person o ran llety penodol, fel cartref gofal preswyl penodol.

Mae asesiad effaith Llywodraeth y DU yn nodi y bydd disgwyl i awdurdodau lleol, gan weithio gyda darparwyr, wneud popeth posibl i gynnal gwasanaethau dros y cyfnod i ddod. Fodd bynnag, pan fydd y pandemig ar ei waethaf, bydd gwasanaethau gofal cymdeithasol oedolion yn wynebu cynnydd yn y galw

a llai o gapasiti yn deillio o gyfraddau absenoldeb uwch ymhlith staff. Mae'n dweud y gallai hyn ei gwneud yn amhosibl i awdurdodau lleol barhau i ddarparu gwasanaethau ar y lefelau presennol, neu gynnal yr asesiadau manwl y byddent yn eu darparu fel arfer.

In such circumstances it is crucial that LAs should be able to prioritise care in order to protect life and reach rapid decisions over the provision of care.[...]

These provisions, which would only be brought into operation for the shortest possible time at the peak of the coronavirus outbreak, would allow LAs to do this by temporarily releasing them from some of their duties. [...]

Even during the operation of these changes, LAs would still be expected to continue meeting all of their duties under the Act if they are able to do so. It would though allow them to prioritise the provision of services if needed [...]

Mae Llywodraeth y DU yn nodi bod yr amseriad ar gyfer sbarduno'r cymalau'n allweddol ac y bydd yn seiliedig ar gyngor clinigol a meddygol ynghylch cynnydd yr achosion o'r coronafeirws.

Holodd aelodau o Bwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Cynulliad y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn eu cyfarfod ar 18 Mawrth 2020 ynghylch effaith y darpariaethau hyn, yn enwedig ar ofalwyr di-dâl. Cododd yr aelodau bryderon am ofalwyr di-dâl, y gallai gofynion a dyletswyddau gofalu ychwanegol gael eu gosod arnynt, yn ogystal â dileu gwasanaethau cymorth fel gofal seibiant. Anogwyd y Gweinidog i gofio anghenion gofalwyr di-dâl, y bydd baich aruthrol arnynt o ganlyniad i'r mesurau hyn.

Dyweddodd y Gweinidog ei fod yn cydnabod y pryder hwn. Aeth ymlaen i ddweud:

It's been a large part of our discussions about what to do and things to consider. If you think about both ends of the age range as well, there are lots of people who are in a risk category because of a healthcare condition who are unpaid carers; there are quite a lot of people over the age of 70 who are unpaid carers, either for partners or indeed for parents as well, and we also then have lots of young carers as well.

Mae **Carers UK** yn dweud ei bod yn hanfodol bod cynghorau'n parhau i asesu'r risgiau a'r gwendidau sy'n effeithio ar ofalwyr a'r bobl y maent yn eu cefnogi, yn enwedig wrth ailflaenoriaethu gwasanaethau.

Mae asesiad effaith Llywodraeth y DU yn cydnabod y gallai'r darpariaethau olygu na fydd rhai o anghenion gofal pobl yn cael eu diwallu, ac y gallai hyn gael sgil-ffeithiau ar yr aelodau teulu neu'r gofalwyr, neu'r gymuned leol, y gallai

fod yn rhaid i awdurdodau lleol droi atynt i ddarparu cymorth dros dro. Fodd bynnag, mae'n rhesymu, yn yr amgylchiadau eithafol hyn, y byddai'r effeithiau hyn yn digwydd ni waeth am y ddeddfwriaeth newydd ac mai ei bwriad yw caniatáu i awdurdodau lleol liniaru effeithiau negyddol y trefniadau blaenoriaethu angenrheidiol cyn belled ag y bo'n bosibl.

Addysg a gofal plant

Nododd cynllun gweithredu'r Coronafeirws y byddai mesurau i gau ysgolion a lleoliadau addysgol eraill yn cael eu cymryd yn ystod y cyfnod gohirio, ar yr adeg briodol, er mwyn lleihau ymlediad y feirws. Ddydd Mercher 18 Mawrth, **cyhoeddodd** Kirsty Williams AC, y Gweinidog Addysg, y byddai ysgolion yng Nghymru yn cau erbyn dydd Gwener 20 Mawrth 2020.

Cynhaliodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg **sesiwn dystiolaeth lafar** gyda'r Gweinidog Addysg ddydd lau 19 Mawrth 2020 ynghylch ymateb Llywodraeth Cymru i'r achosion o'r coronafeirws gan ei fod yn ymwneud â'r darparwyr gofal plant a blynyddoedd cynnar, ysgolion, a darparwyr addysg bellach ac addysg uwch. Roedd sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch yng Nghymru eisoes wedi newid i ddarpariaeth ar-lein a pheidio ag addysgu a darlithio wyneb yn wyneb bryd hynny, er bod y Bil Coronafirws yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru eu cyfarwyddo i gau pe byddent yn teimlo bod hyn yn angenrheidiol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud nad yw'n ofynnol i leoliadau gofal plant gau ac y dylent aros ar agor am y tro, ond dim ond i blant y mae swydd eu rhieni'n hanfodol i ymdrin â'r coronafeirws. Fodd bynnag, mae hefyd wedi **cyhoeddi** y bydd darparwyr yn dal i gael cyllid dan y Cynnig Gofal Plant hyd yn oed os bydd yn rhaid iddynt gau oherwydd rhesymau iechyd y cyhoedd, os na fydd plant yn mynychu oherwydd y coronafeirws neu os bydd yn rhaid iddynt gau oherwydd niferoedd annigonol. Mae'r Bil yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo darparwyr gofal plant cofrestredig i gau.

Mae'r Bil yn cynnwys tri phŵer sy'n ymwneud ag addysg:

- **pŵer i fynnu neu gyfarwyddo cau sefydliad addysgol neu ddarparwr gofal plant cofrestredig dros dro.** Mae Cymal 35 ac Atodlen 15 (Rhan 1) yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gyfarwyddo cau pob sefydliad addysg (neu unrhyw fath penodol o sefydliad addysg) dros dro. Yn ogystal ag ysgolion, mae hyn yn cynnwys sefydliadau addysg bellach ac uwch fel y'u diffinnir gan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, a darparwyr hyfforddiant o fewn ystyr Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Gall Gweinidogion Cymru hefyd gyfarwyddo cau darparwyr gofal plant cofrestredig. Yn y cyd-destun hwn, diffinnir gofal plant fel unrhyw beth sy'n gyfystyr â gwarchod plant neu ofal dydd i blant at ddibenion Rhan 2 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010.

- Cyn cyfarwyddo cau lleoliadau, rhaid i Weinidogion Cymru: (a) ystyried unrhyw gyngor gan Brif Swyddog Meddygol Cymru neu un o Ddirprwy Brif Swyddogion Meddygol Cymru ynghylch achosion neu drosglwyddo'r coronafeirws, a (b) bod yn fodlon bod rhoi'r cyfarwyddyd yn weithred angenrheidiol a chymesur mewn ymateb i'r achosion o'r coronafeirws neu drosglwyddo'r clefyd.
- **pŵer i wneud mathau penodol o gyfarwyddiadau mewn cysylltiad â chynnal y systemau addysg a gofal plant cofrestredig.** Mae Cymal 36 ac Atodlen 16 (Rhan 1) yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gyfarwyddo ysgolion, sefydliadau addysg bellach a sefydliadau addysg uwch, darparwyr hyfforddiant a darparwyr gofal plant cofrestredig i barhau i fod ar agor a gwneud mathau penodol o ddarpariaeth. Gall y ddarpariaeth hon gynnwys: addysg, hyfforddiant neu ofal plant, gwasanaethau sy'n ymwneud ag addysg, hyfforddiant neu ofal plant, neu wasanaethau neu gyfleusterau ategol. Cyfeirir at gyfarwyddyd o'r fath yn y Bil fel 'cyfarwyddyd parhad dros dro'. Mae enghreifftiau o ffyrdd gwahanol y gellir cyfarwyddo lleoliadau i weithredu, a nodir yn Atodlen 16, yn cynnwys: ei gwneud yn ofynnol i sefydliad perthnasol agor, aros ar agor, ailagor, neu agor ar adegau pan na fyddai ar agor fel arfer; ei gwneud yn ofynnol i newid dyddiadau tymhorau a threfnu ar gyfer trafniadaeth i bobl sy'n cael mynediad at eu darpariaeth; ac ati. Mae'r Bil yn galluogi Gweinidogion Cymru i awdurdodi awdurdodau lleol i gyhoeddi'r cyfarwyddydau hyn mewn perthynas ag ysgolion a darparwyr gofal plant a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) i gyhoeddi cyfarwyddydau o'r fath i sefydliadau addysg uwch.
- **pŵer i ddatgymhwyso neu addasu gofynion deddfwriaethol presennol penodol sydd wedi'u cynnwys mewn addysg a gofal plant neu'n deillio o hynny.** Byddai'r Bil yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddatgymhwyso neu addasu rheolau a gofynion penodol, er enghraifft y gofyniad i ddarparu'r cwricwlwm, ar leoliadau a nodir yn Atodlen 16(7)(6). Bwriad y rhain yw galluogi ysgolion a sefydliadau eraill i weithredu'n effeithiol a heb faich gormodol yn ystod argyfwng pan fydd ymdrechion yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r coronafeirws.

I grynhoi, nod y Bil yw rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion datganoledig ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau addysgol neu ddarparwyr gofal plant aros ar agor neu lacio rhai gofynion ynghylch deddfwriaeth addysgol er mwyn helpu i gynnal y sefydliadau hyn yn effeithiol os bydd argyfwng. Gallai

hyn gynnwys lleihau cymarebau athrawon, addasu safonau prydau ysgol a llacio darpariaethau i'r rhai sydd ag anghenion addysgol arbennig.

Mae'r cyfrifoldeb am y blynyddoedd cynnar ac addysg wedi'i ddatganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin wedi cyhoeddi papur briffio ynghylch **lleoliadau gofal plant ac addysg**, sy'n ymdrin â rhai o'r darpariaethau gan eu bod yn ymwneud â phedair gwlad y DU.

Cau porthladdoedd

Mae Cymal 48 ac Atodlen 19 yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol atal gweithrediadau penodol gan borthladdoedd drwy gyfarwyddyd ysgrifenedig i weithredwr porthladd yn yr achosion a ganlyn:

- os oes risg wirioneddol a sylweddol na fydd digon o swyddogion Llu'r Ffiniau i gynnal diogelwch ffiniau digonol o ganlyniad i nifer yr achosion o'r feirws neu drosglwyddo'r feirws;
- os yw'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cymryd mesurau eraill o'r fath sy'n rhesymol ymarferol i liniaru'r risg honno.

Mae hyn yn gymwys i *unrhyw* faes awyr, porthladd a phorth llongau hofran yn y DU, yn ogystal â therfynfeydd trenau rhyngwladol y DU. Ni chaiff y cyfnod atal fod yn hwy na 6 awr i ddechrau. Gellir ymestyn hyn am 6 awr arall drwy rybudd ysgrifenedig, ac am gyfnodau dilynol o 12 awr yr un.

Caiff yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd gyfarwyddo unrhyw berson i gymryd camau canlyniadol priodol - er enghraifft sicrhau bod llong, trênn neu awyren yn cyrraedd porth arall yn ddiogel. Mae'r Atodlen yn cyflwyno trosedd ddiannod, sef methu â chydymffurfio â chyfarwyddyd heb esgus rhesymol.

Mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol hysbysu'r gweinyddiaethau datganoledig o unrhyw gyfarwyddyd a gyhoeddir.

Mae asesiad effaith Llywodraeth y DU yn nodi'r canlynol os bydd adnoddau Llu'r Ffiniau yn cael eu disbyddu:

... a power is needed to ensure that we can direct arrivals to ports of arrival in the UK where there will be sufficient Border Force officers to carry out the necessary border security checks.

Mae'n pwysleisio mai dim ond pan fo'r Ysgrifennydd Gwladol wedi disbyddu'r holl fesurau lliniaru perthnasol eraill y mae'r pŵer ar gael ac y byddai ei ddefnyddio'n cael ei lywodraethu gan fesurau diogelu llym er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei

ddefnyddio'n deg, yn gyfrifol ac yn gymesur a chyda'r lefel briodol o awdurdod. Mae'r Nodiadau Esboniadol yn dweud bod trothwy uchel ar gyfer defnyddio'r pŵer.

Mae gan y Cynulliad gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â phorthladdoedd a harbyrau sydd yn gyfan gwbl yng Nghymru ac eithrio "porthladdoedd ymddiriedolaeth a gedwir yn ôl" (h.y. Aberdaugleddau) a materion eraill a gedwir yn ôl fel hawliau mordwyo a rhyddidau a llongau. Mae gan Weinidogion Cymru hefyd nifer o bwerau gweithredol. Fodd bynnag, mae Llu Ffiniau'r DU a threfniadau gweithredu Ffin y DU yn faterion a gedwir yn ôl.

Ar 18 Mawrth, trafododd Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Cynulliad y ddarpariaeth hon cyn cyflwyno'r Bil ar 19 Mawrth. Yng nghyd-destun y setliad datganoli, gofynnodd Carwyn Jones AC pa borthladdoedd yr effeithir arnynt ac a oedd yn gymwys i borthladdoedd â phersonél Llu'r Ffiniau yn unig.

Ymatebodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:

... the starting point is that powers of Welsh Ministers remain the powers of Welsh Ministers. So, we're not looking to surrender powers during the course of passing this legislation. We are talking about how we make use of concurrent powers. So, if there was a choice made, for example, at once to close all ports, then there is an ability to make a UK-wide decision that would require the consent of devolved Ministers.

Dywedodd Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd, Llywodraeth Cymru:

... that this is one of the provisions in the Bill where there has been some discussion about the extent of devolved competence, and there's not necessarily yet a meeting of minds between us and UK colleagues as to where that line falls. So, I think it would be helpful to committee if we can follow up with a note once we see the final provisions of the Bill later today on this specific point, but also on the wider provisions of the Bill as they relate to Wales.

Fel y mae'n amlwg o'r crynodeb uchod, mae'r pŵer yn gymwys i holl borthladdoedd y DU a'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig sy'n gyfrifol am y pŵer hwnnw, ac mae'n rhaid iddo ef hysbysu'r gweinyddiaethau datganoledig.

Mae Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin wedi cyhoeddi **papur briffio** sy'n ymwneud â phwerau brys a diogelwch gwladol. Mae adran 5 yn ymwneud â chau porthladdoedd.

Pwerau ymchwilio

Bydd y Bil yn cyflwyno pwerau newydd, dros dro ar gyfer gorfodi'r gyfraith ac ar gyfer yr asiantaethau diogelwch a chudd-wybodaeth. Materion a gedwir yn ôl yw'r rhain ac ymdrinnir â hwy ym **mhapur briffio**. Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin sy'n ymwneud â phwerau brys a diogelwch gwladol.

Mae Cymal 21 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio hysbysu'r Ysgrifennydd Gwladol os oes prinder Comisiynwyr Barnwrol i weithredu'r system o dan Ddeddf Pwerau Ymchwilio 2016, oherwydd effeithiau'r coronafeirws. Yna, byddai'r Ysgrifennydd Gwladol yn gallu gwneud rheoliadau sy'n darparu'r pŵer i'r Comisiynydd Pwerau Ymchwilio benodi Comisiynwyr dros dro. Mae'r Bil hefyd yn rhoi pwerau i'r Ysgrifennydd Cartref - Cymal 22, ar gais y Comisiynydd Pwerau Ymchwilio, amrywio'r amser a ganiateir i Comisiynydd Barnwrol adolygu gwarantau brys ac am ba mor hir y gallant bara cyn bod angen eu hadolygu.

Mae dogfen gryno Llywodraeth y DU yn nodi'r canlynol:

[The Investigatory Powers Act 2016] is one of the critical pieces of domestic legislation for national security. It creates the statutory basis for the use of the investigatory powers by the intelligence and law enforcement agencies, using warrants issues under the act. These warrants provide the agencies with the capability they need to protect national security and investigate and prevent serious crime.

Achosion llys

Mae'r Nodiadau Esboniadol yn nodi y bydd effeithlonrwydd ac amseroldeb gwrandawiaidau llys a thribiwnlys yn dioddef yn ystod COVID-19. Mae Cymalau 51 i 54 ac Atodlenni 22 i 25 yn darparu ar gyfer defnyddio cyswllt sain byw neu gyswllt fideo byw mewn nifer o wahanol achosion a gwrandawiaidau. Mae'r ddogfen gryno'n nodi y bydd y mesurau hyn yn galluogi cynnal ystod ehangach o achosion drwy fideo, fel y gall llysoedd barhau i weithredu ac aros ar agor i'r cyhoedd, heb yr angen i'r cyfranogwyr fynychu'n bersonol. Mae'n nodi y bydd hyn yn rhoi mwy o opsiynau i Farnwyr osgoi gohirio a pharhau i gynnal achosion yn y llysoedd i helpu i leihau oedi wrth weinyddu cyfiawnder a lliniaru'r effaith ar deuluoedd, dioddefwyr, tystion a diffynyddion.

O ran galluogi'r cyhoedd i wyllo a chlywed yr achos llys, mae'r Bil yn darparu, os bydd yr achos yn cael ei gynnal yn gyfan gwbl drwy gyswllt fideo byw neu gyswllt sain byw, y caiff y llys hefyd gyfarwyddo bod yr achos yn cael ei ddarlledu i aelodau o'r cyhoedd. Yn ogystal, caiff y llys gyfarwyddo y gellir cofnodi'r achos fel y gall y llys gadw cofnod clyweledol.

3.3. Oedi ac arafu'r firws

Mae'r cynllun gweithredu Coronafeirws yn nodi'r camau y bydd Llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig yn eu cymryd i helpu i oedi epidemig y coronafeirws a llyfnhau cyfnod brig y feirws. Mae'r rhain yn cynnwys camau i arafu'r firws trwy gyngori pobl i leihau eu hymwneud cymdeithasol lle nad yw'n angenrheidiol.

Ar 17 Mawrth 2020, gwnaed y Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws) (Cymru) 2020 i ddarparu ar gyfer 'gosod cyfyngiadau cymesur' ar unigolion lle yr amheuir y gallent fod â coronafeirws. Ar 20 Mawrth 2020, defnyddiodd Llywodraeth Cymru ei phwerau o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd 1984 i gyflwyno Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Cau Busnes) (Cymru) 2020 i atal pobl rhag ymgynnull trwy orfodi cau bwytaï, tafarndai, caffis a chyfleusterau eraill lle mae pobl yn ymgynnull. Cyngorwyd ysgolion Cymru hefyd i gau erbyn dydd Gwener 20 Mawrth 2020.

Mae'r Bil yn cynnwys darpariaethau i ganiatáu i Lywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig gyfyngu ymhellach ar symudiadau, a rhoi cyfarwyddydau ar ddigwyddiadau, ymgynulliadau a mangreoedd. Dim ond mewn argyfwng y byddai'r pwerau hyn yn cael eu defnyddio ond mae iddynt oblygiadau sylweddol o ran cyfyngu ar hawliau dynol.

Mae gan yr heddlu eisoes sawl pŵer y maent yn gallu eu defnyddio mewn cysylltiad â'u hymateb i'r coronafeirws fel y nodir ym **mhapur briffio Tŷ'r Cyffredin** ynghylch pwerau brys a diogelwch gwladol. Byddai'r Bil yn cyflwyno pwerau dros dro ychwanegol, gan gynnwys y darpariaethau a ganlyn:

Cyfyngiadau ar symud a chwariantin

Mae Cymal 49 ac Atodlen 20 yn rhoi pŵer i swyddogion iechyd cyhoeddus gwarantinio unigolion sydd wedi profi'n bositif (neu â chanlyniad amhendant) am coronafeirws neu unigolion y maent yn amau'n rhesymol fod ganddynt y clefyd. Byddai hefyd yn rhoi pwerau i swyddogion heddlu a swyddogion mewnfudo fynd â phobl y maent yn amau bod coronafeirws arnynt i'w profi neu eu hasesu gan swyddogion iechyd cyhoeddus.

Mae Cymal 50 ac Atodlen 21 yn rhoi pŵer i lywodraeth pob gwlad yn y DU gyhoeddi cyfarwyddydau sy'n gwahardd unrhyw ddigwyddiadau neu ymgynulliadau. Byddai hefyd yn rhoi pŵer i'r llywodraethau hynny atal mynediad i unrhyw fangre, neu gyfyngu'r mynediad.

Cyda'i gilydd, byddai Cymalau 49 a 50 yn rhoi pwerau eang i lywodraeth pob gwlad yn y DU gyfyngu ar ryddid symud dinasyddion er mwyn atal y feirws rhag lledaenu. Fodd bynnag, nid oes unrhyw bwerau yn y Bil a fyddai'n caniatáu cyhoeddi cyfarwyddydau sy'n ei gwneud yn ofynnol i unigolion gael caniatâd ymlaen llaw neu reswm da i adael eu cartrefi. Ni fyddai'r Bil ychwaith yn rhoi pwerau i'r heddlu na swyddogion mewnfudo orfodi cwarantín hirhoedlog ar bobl nad ydynt wedi cael eu hasesu am y feirws gan swyddogion iechyd cyhoeddus.

Pwerau sy'n ymwneud â digwyddiadau, ymgynulliadau a mangreoedd

Fel y nodwyd uchod, mae Cymal 50 ac Atodlen 21 yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion yr Alban, Gweinidogion Cymru a'r Swyddfa Weithredol yng Ngogledd Iwerddon i gyfyngu neu wahardd ymgynulliadau neu ddigwyddiadau, ac i atal neu gyfyngu mynediad i fangre yn ystod cyfnod ymateb iechyd cyhoeddus (a bennir gan Weinidogion ar sail meini prawf a ddiffinnir yn yr Atodlen).

Gellir defnyddio'r pŵer i gyfyngu neu wahardd ymgynulliadau neu ddigwyddiadau mewn cysylltiad â pherchennog neu ddeiliad mangre neu unrhyw un sy'n ymwneud â'r gwaith o gynnal digwyddiad neu ymgynulliad o'r fath. Yn yr un modd, gellir defnyddio'r pŵer i atal neu gyfyngu mynediad i fangre mewn cysylltiad â pherchennog neu ddeiliad y fangre, neu unrhyw un sy'n ymwneud â rheoli mynediad i'r fangre ac o fewn y fangre.

Fel y diffinnir yn y Bil, mae 'mangre' yn cynnwys unrhyw le ac, yn benodol, mae'n cynnwys: unrhyw gerbyd, trê, llong neu awyren; unrhyw babell neu strwythur symudol, ac; unrhyw osodiad ar y môr. Mae cyfeiriadau at fangreoedd hefyd yn cynnwys rhan o fangre.

Dylai'r Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion yr Alban, Gweinidogion Cymru a'r Swyddfa Weithredol yng Ngogledd Iwerddon ystyried cyngor eu Prif Swyddogion Meddygol cyn cyhoeddi cyfarwyddyd o dan y pŵer hwn.

Yng nghyfarfod Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Cynulliad ar 18 Mawrth 2020, gofynnwyd i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ba raddau y byddai dull cydgysylltiedig yn cael ei ddefnyddio ledled y DU i gau pob mangre fel tafarndai, bwytai a chaffis er enghraifft. Ymatebodd y Gweinidog:

Well, those are conversations that we have between the Governments about what to do, when and where and the basis upon which to do that. So, if we really are going to enforce the closure of all of those premises, then that is going to be a conversation that the Welsh and

Scottish Governments are involved in, and not just a matter to come out from a department within the UK Government.

Pwerau'r heddlu a swyddogion mewnfudo i gadw personau sydd wedi'u heintio

Ar 17 Mawrth 2020, gwnaed Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws) (Cymru) 2020 i ddarparu ar gyfer "gosod cyfyngiadau cymesur" ar unigolion lle yr amheuir y gallent fod â coronafeirws. Roedd y Rheoliadau, a ddaeth i rym ar 18 Mawrth 2020, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn 'gadarnhaol' yn y Cynulliad (a ddefnyddir pan fydd angen newid y gyfraith ar frys). Gwnaed rheoliadau tebyg yn Lloegr ar 10 Chwefror 2020.

Mae'r Bil yn dirymu'r Rheoliadau hyn; esboniodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'i swyddogion i Bwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Cynulliad ar 18 Mawrth 2020 y byddai cynnwys y Rheoliadau yn cael ei gynnwys yn y Bil.

Mae'r darpariaethau perthnasol i'w gweld yng nghymal 49 ac Atodlen 20 i'r Bil.

Mae'r rhain yn rhoi rhai pwerau i swyddogion iechyd cyhoeddus, cwnstabiliaid a swyddogion mewnfudo i gadw person, am gyfnod cyfyngedig, sydd wedi'i heintio, neu a allai fod wedi'i heintio, ac i fynd â nhw i le addas i alluogi proses sgrinio ac asesu. Daw'r darpariaethau hyn i rym ar y diwrnod y caiff y Ddeddf ei phasio.

Gohirio etholiadau

Ar 13 Mawrth 2020, **cyhoeddodd Prif Weinidog y DU** y byddai'r etholiadau a drefnwyd ar gyfer 7 Mai 2020 yng Nghymru a Lloegr yn cael eu gohirio o flwyddyn hyd at 6 Mai 2021. Roedd y rhan fwyaf o'r etholiadau hyn i fod i gael eu cynnal yn Lloegr yn unig, ac eithrio etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd a gynlluniwyd yng Nghymru a Lloegr. **Galwodd y Comisiwn Etholiadol** i etholiadau 7 Mai gael eu gohirio tan yr hydref.

Mae cymalau 57-66 o'r Bil yn gwneud darpariaeth i ohirio etholiadau a refferenda, ac i ddarpariaethau atodol gael eu gwneud i ymdrin â'r goblygiadau o ohirio unrhyw etholiad (byddai rheoliadau o'r fath yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol).

Mae darpariaethau penodol i Gymru wedi'u cynnwys yn y Bil mewn perthynas ag etholiadau. Mae cymal 62 yn gwneud darpariaeth ar gyfer gohirio etholiadau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer seddi gwag mewn etholaethau. Mae'r cymal yn darparu, cyn 6 Mai 2021, os byddai angen cynnal etholiad fel arall o dan adran 10 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i lenwi sedd etholaeth wag, gall Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru bennu dyddiad diweddarach ar gyfer yr etholiad hwnnw. Gellir arfer y pŵer hwn fwy nag unwaith ond cyn i'r Llywydd ddefnyddio'r pŵer, rhaid i'r Llywydd ymgynghori â Gweinidogion Cymru a'r Comisiwn Etholiadol.

Mae cymal 63 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ohirio, trwy reoliadau, isetholiadau awdurdodau lleol yng Nghymru a fyddai'n cael eu cynnal rhwng cychwyn y Ddeddf a 5 Mai 2021.

Mae Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin wedi darparu papur briffio ar **etholiadau**.

3.4. Urddas a pharch wrth reoli'r ymadawedig

Mae Llywodraeth y DU yn nodi yn ei dogfen gryno ei bod am sicrhau bod yr ymadawedig yn cael eu trin â'r parch a'r urddas mwyaf a bod y gweithdrefnau cyfredol mewn perthynas â trefniadau cofrestru a rheoli marwolaethau a marw-enedigaethau yn cael eu haddasu i alluogi hyn ac i ddiogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Bil hefyd yn rhoi ystyriaeth i'r ffaith y gallai teuluoedd sydd wedi colli rhywun annwyl fod yn hunanyngysu, ac y gallai fod llai o gapasiti i gofrestru a rheoli marwolaethau o ganlyniad i absenoldeb salwch sy'n gysylltiedig â'r pandemig.

Mae Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin wedi cyhoeddi **papur briffio** sy'n cwmpasu'r darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â rheoli'r ymadawedig. Mae'r Bil hwn yn cynnwys y darpariaethau a ganlyn:

Cofrestru marwolaethau a marw-enedigaethau

Mae Cymal 17 ac Atodlen 12 i'r Bil yn ymwneud â chofrestru marwolaethau a marw-enedigaethau (mae Rhan 1 o'r Atodlen yn ymwneud â Chymru a Lloegr).

Nod y darpariaethau yw sicrhau y gall y prosesau gweinyddol sy'n ymwneud â chofrestru genedigaethau, marwolaethau a marw-enedigaethau weithredu'n effeithiol yn ystod argyfwng Covid-19, gan gydnabod y gall systemau gael eu rhoi o dan bwysau ychwanegol ac efallai na fydd pobl yn gallu mynd i swyddfa Cofrestrydd.

Mae'r system bresennol o ardystio marwolaeth yn gofyn am ardystiad o achos marwolaeth gan ymarferydd meddygol cofrestredig a ofalodd am yr ymadawedig

yn ystod ei salwch diwethaf; fel arall, rhaid i'r farwolaeth (yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon) fod wedi'i hadrodd i'r crwner a'r ardystiad priodol wedi'i ddarparu gan y crwner. Bydd y Bil yn darparu mwy o hyblygrwydd mewn sefyllfa o argyfwng trwy ei gwneud yn bosibl i feddyg na fydd efallai wedi gweld yr ymadawedig i allu ardystio achos y farwolaeth heb i'r farwolaeth gael ei chyfeirio at y crwner.

Mae'r ddeddfwriaeth gyfredol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i berson – fel arfer aelod o'r teulu – fynychu'r swyddfa gofrestru i gofrestru marwolaeth. Bydd y Bil yn caniatáu i berson gofrestru marwolaeth heb fynd i'r swyddfa gofrestru, a bydd hefyd yn ehangu'r rhestr o'r bobl a gaiff roi'r wybodaeth berthnasol i'r cofrestrydd i gofrestru'r farwolaeth i drefnwyr angladdau.

Bydd y Bil yn gwneud newidiadau tebyg i'r ddeddfwriaeth berthnasol sy'n ymwneud â Chymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon i symleiddio prosesau.

Mae cymal 18 o'r Bil yn addasu *Rheoliadau Amlosgi (Cymru a Lloegr) 2008* gan olygu y bydd y canolwr meddygol (sef ymarferydd meddygol cofrestredig a gyflogir gan yr awdurdod amlosgi sy'n awdurdodi amlosgiadau) yn gallu awdurdodi amlosgiad ar sail yr ardystiad meddygol gan un ymarferydd meddygol cofrestredig, heb gadarnhad ardystiad meddygol gan ail ymarferydd meddygol cofrestredig. Nod dileu'r broses oruchwylio ychwanegol hon gan ymarferwyr meddygol yw symleiddio'r broses i ymdopi â'r nifer cynyddol o farwolaethau disgwylidig a'r angen i ddefnyddio'r ymarferwyr meddygol sydd ar gael i ddelio ag achosion sy'n fwy o flaenoriaeth. Mae hefyd yn anelu at leihau'r tebygolrwydd o oedi cyn i deuluoedd allu gwneud trefniadau amlosgi ar gyfer yr ymadawedig.

Pwerau sy'n ymwneud â chludo, storio a gwaredu cyrff marw

Mae Cymal 56 ac Atodlen 27 yn nodi'r pwerau sy'n ymwneud â chludo, storio a gwaredu cyrff marw.

Mae Rhan 1 o Atodlen 27 yn sicrhau bod gan awdurdodau lleol ac awdurdodau cenedlaethol (sef Gweinidogion Cymru yn achos Cymru) y pwerau i'w gwneud yn ofynnol i bersonau (ac yn achos awdurdodau cenedlaethol, ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol) ddarparu gwybodaeth i alluogi awdurdodau lleol a chenedlaethol i sicrhau capasiti mewn ardaloedd i allu rheoli trefniadau cludo, storio a gwaredu cyrff marw a gweddillion dynol eraill yn effeithiol. Gall hyn gynnwys gwybodaeth gan gwmnïau preifat (fel cartrefi angladd preifat neu amlosgfeydd) ar eu capasiti a'u statws gweithredol. Yn ôl y Nodiadau Esboniadol, mae angen y ddarpariaeth hon ar gyfer rhannu gwybodaeth er mwyn rhoi syniad

o gapasiti'r system rheoli marwolaethau ac i atal y system rhag cael ei llethu, a bydd yn llywio penderfyniadau ynghylch cyfarwyddydau i'w rhoi.

Gall awdurdodau cenedlaethol ddynodi ardal awdurdod lleol lle mae'n debygol na fydd digon o gapasiti yn yr ardal honno i gludo, storio neu waredu cyrff marw neu weddillion dynol eraill o ganlyniad i glefyd coronafeirws. Unwaith y bydd ardal wedi'i dynodi, gall awdurdod lleol roi cyfarwyddydau i gwmnïau neu gorfforaethau. Gall awdurdod cenedlaethol roi'r un cyfarwyddydau lle mae ymateb rhanbarthol neu genedlaethol yn fwy priodol. Y trothwy i achosi i hyn ddigwydd fydd penderfyniad gan Weinidog yn y wlad dan sylw. Mae'r Nodiadau Esboniadol yn nodi: "the flexibility to direct locally, regionally or nationally provides that powers are only used where necessary, but also used most effectively and in a proportionate way".

Mae'r Nodiadau Esboniadol hefyd yn nodi bod y cyfarwyddydau y gellir eu rhoi yn eang eu diffiniad, gan fod angen hyblygrwydd o ran yr hyn y gallai fod ei angen i ddelio â'r sefyllfa. Fodd bynnag, disgwylir y bydd angen y cyfarwyddydau a ganlyn: cyfarwyddyd i gwmni preifat, er enghraifft, ymestyn oriau gweithredu amlosgfeydd neu ddefnyddio eu cerbyd i gludo cyrff marw. Mae'r pŵer i roi cyfarwyddyd hefyd yn cynnwys pŵer i roi cyfarwyddydau mewn perthynas â symud corff o un ardal i ardal arall.

Fel y disgrifir yn y Nodiadau Esboniadol, bydd dewis personol ar gyfer gwaredu'r corff yn cael ei barchu cyn belled ag y bo modd. Fodd bynnag, lle nad oes dewis addas arall (er enghraifft pe bai capasiti storio diogel yn debygol o gael ei lenwi a lle nad oes dewisiadau amgen y tu allan i'r ardal ar gael), gellir defnyddio'r pŵer i roi cyfarwyddyd ynghylch p'un a ddylid claddu ynteu amlosgi corff. Mae'r Asesiad Effaith yn nodi bod dymuniadau'r ymadawedig a'u perthynas agosaf 'yn ystyriaeth bwysig iawn' ac y bydd y dymuniadau hyn yn cael eu parchu cyn belled ag y bo modd, gan ychwanegu bod 'cynyddu capasiti'r system rheoli marwolaeth yn hanfodol ar gyfer ymestyn hyd yr amser y gellir cadw at y dymuniadau hyn'.

Daw'r darpariaethau rhannu gwybodaeth yn Rhan 1 o'r Atodlen i rym pan roddir Cydsyniad Brenhinol. Mae'r pwerau i wneud Cyfarwydddebau yn Rhan 2 yn arferadwy ar ôl iddynt gael eu dynodi gan awdurdod cenedlaethol. Gall Gweinidog gweinyddiaeth ddatganoledig sicrhau bod y pwerau hyn yn weithredol yn eu gwlad hwy heb fod angen cymeradwyaeth y gwledydd eraill.

Wrth ymateb i gwestiwn am dlodi o ran angladdau, dywedodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wrth Bwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Cynulliad ar 18 Mawrth 2020:

If we really are seeing a level of mortality that means that the normal process can't cope then we'd have to make changes. And the initial part could be about increasing storage of the deceased and powers for local authorities to acquire places to store bodies, and then we have to consider what that means, in terms of whether it's burial or disposal and whether it's possible that single disposal may not be possible at the top end of the reasonable worst-case scenario. And, if that's the requirement, because of the public health crisis that we'd be facing at that point, then, of course, we need to be able to direct parts of the system and the finance for that so that you don't end up having an inability to deal with a practical challenge of large numbers of excess deaths because of the financial means of some of those people.

Cwestau

O dan y ddeddfwriaeth gyfredol, mae statws Covid-19 fel clefyd hysbysadwy yn golygu bod yn rhaid cael rheithgor ar gyfer unrhyw gwest i farwolaeth lle mae gan y crwner reswm i amau bod COVID-19 wedi achosi'r farwolaeth.

Fel y disgrifir yn y Nodiadau Esboniadol, gallai hyn fod â goblygiadau adnoddau sylweddol iawn o ran llwyth gwaith crwner a gwasanaethau crwner yr awdurdod lleol, 'gan arwain at 25,000 o gwestau rheithgor ychwanegol posibl hyd yn oed ar ben isaf model marwolaethau Covid-19 yng Nghymru a Lloegr'.

Byddai gohirio cwestau nes bod y pandemig wedi mynd heibio yn amddifadu teuluoedd mewn profedigaeth rhag cael tawelwch meddwl yn gyflym (a beth bynnag, ni fyddai hyn ond yn oedi'r pwysau ar adnoddau nes y dyfodol).

Bydd cymal 28 y Bil yn addasu'r ddeddfwriaeth gyfredol fel nad oes gofyniad sy'n gorfodi crwneriaid i gynnal unrhyw gwest gyda rheithgor pan fo ganddynt reswm i amau bod y farwolaeth wedi'i hachosi gan Covid-19.

3.5. Diogelu a chefnogi pobl

Tâl Salwch Statudol a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol

Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Thâl Salwch Statudol. Mae'r Bil yn rhoi pŵer i Lywodraeth y DU atal y rheol dros dro sy'n golygu na thelir tâl salwch statudol am y 3 diwrnod cyntaf o waith a gollir oherwydd salwch neu hunanynysu, ac mae hyn yn golygu y gall pobl dderbyn y tâl hwn o'r diwrnod cyntaf. Bydd hyn yn galluogi cyflogwyr sydd â llai na 250 o weithwyr i hawlio nôl y tâl salwch statudol a dalwyd am absenoldebau salwch yn ymwneud â'r coronafeirws yn ystod cyfnod yr argyfwng. I raddau helaeth, nid yw budd-daliadau lles wedi eu datganoli, gyda rhai eithriadau fel y Gronfa Cymorth Dewisol a Chynllun Gostyngiadau'r Dreth

Gyngor. Mae Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin wedi paratoi **papur briffio ar Dâl Salwch Statudol a Chyfraniadau Yswiriant Gwladol.**

Cyflenwad Bwyd

Mae Llywodraeth y DU wedi dweud ei bod yn cydweithio â'r sector bwyd i reoli'r risg o weld achosion o oedi mewn cadwyni cyflenwi bwyd. Mae'r Bil yn creu pŵer i'r awdurdodau priodol ei gwneud yn ofynnol i'r diwydiant bwyd ddarparu gwybodaeth am gyflenwadau bwyd os na fydd partner diwydiant yn cydymffurfio â'r trefniadau rhannu gwybodaeth gwirfoddol sydd ar waith yn ystod y cyfnod hwn o oedi posibl.

Mae cymalau 23-26 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â chyflenwad bwyd, ac mae cymal 27 yn diffinio ystyr 'cadwyn cyflenwi bwyd'. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth i rannu gwybodaeth sy'n ymwneud â'r gadwyn cyflenwi bwyd, ac mae'n nodi pa awdurdodau a all fod angen yr wybodaeth honno.

Nodir bod Gweinidogion Cymru yn 'awdurdod priodol' a all fod angen gwybodaeth. Bydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol a Gweinidogion Cymru y pŵer hwn mewn perthynas â meysydd datganoledig yng Nghymru. Dim ond gyda chaniatâd Gweinidogion Cymru y gall yr Ysgrifennydd Gwladol arfer y pŵer, mewn perthynas â meysydd datganoledig yng Nghymru. Os bydd hyn yn digwydd, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol ddatgelu i Weinidogion Cymru yr wybodaeth y mae wedi'i derbyn sy'n ymwneud â Chymru (gweler adran 24(7)).

Er mai Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am gyflenwi bwyd, mae'r gadwyn cyflenwi bwyd wedi'i hintegreiddio. Yng nghyfarfod Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Cynulliad ar 18 Mawrth 2020, gofynnodd Rhun ap Iorwerth AC pa rôl oedd gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â chyflenwadau bwyd. Esboniodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol:

There have been practical conversations with our emergency co-ordination group about how to make sure that food supply is not just coming into the UK, but that it is then equitably provided around the country, and what that means in terms of our own interactions, as citizens, when we're going out and looking to buy, hopefully, in a normal way, although I understand why lots of people are behaving differently, because people are worried. But, we still continue to have the message from the food retail sector that there is enough food for everyone if people do try to behave as normally as possible, and that food is still coming in and suppliers are still being restocked.

Rhoddodd Neil Surman, Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd yn Llywodraeth Cymru, sicrwydd pellach bod y cyflenwad bwyd 'yn eithaf diogel ar hyn o bryd'.

Mae Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin wedi llunio **papur briffio ar gyflenwad bwyd**.

Llofnodion Comisiynwyr y Trysorlys

Mae adran 69 o'r Bil yn cynnwys darpariaethau i ddiwygio Adran 1 o Ddeddf Offerynnau'r Trysorlys (Llofnod) 1849. Cyflawnir swyddogaethau'r Trysorlys gan Gomisiynwyr Trysorlys Ei Mawrhydi. Prif Weinidog y DU yw Arglwydd Cyntaf y Trysorlys a Changhellor y Trysorlys yw Ail Arglwydd y Trysorlys. Mae yna chwe Chomisiynydd arall hefyd. Mae Deddf Offerynnau Trysorlys (Llofnod) 1849 yn ei gwneud yn ofynnol i ddau Gomisiynydd neu fwy lofnodi rhai offerynnau neu Ddeddfau er mwyn iddynt ddod i rym. Bydd adran 69 o'r Bil Coronafeirws yn diwygio'r gofyniad hwn fel mai dim ond un neu fwy o Gomisiynwyr sy'n ofynnol i'w lofnodi. Mae'r Nodiadau Esboniadol yn nodi:

...[this will ensure that] the work of the Treasury can continue unimpeded during any covid-19 outbreak and instruments are not delayed in a situation where Commissioners are not available because they are impacted by the covid-19 outbreak.

3.6. Rhan 2: Darpariaethau terfynol: Hyd a lled y pwerau a goruchwyliaeth Seneddol

Mae'r Bil Coronafeirws yn eang ac yn darparu pwerau helaeth i Weinidogion y DU, Gweinidogion y gweinyddiaethau datganoledig a rhai cyrff eraill gan gynnwys awdurdodau lleol. Mae nifer fawr o'r pwerau a ddarperir i Weinidogion yn y Bil yn bwerau llunio is-ddeddfwriaeth. Rhoddir pwerau gwneud cyfarwyddydau i Weinidogion a rhai cyrff eraill hefyd, ac mae'r Bil yn cynnwys rhai pwerau Harri VIII. Mae'r rhain yn bwerau i ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol gan ddefnyddio pwerau is-ddeddfwriaeth.

Mae'r Bil yn cynnwys nifer o ddarpariaethau i wneud y pwerau yn y Bil yn rhai hyblyg, ac mewn sawl achos gall Gweinidogion ddefnyddio pwerau mewn gwahanol ffyrdd, mewn gwahanol feysydd ar wahanol adegau.

Mae mwyafrif y pwerau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil yn rhai dros dro, a byddant yn dod i ben ar ôl cyfnod o ddwy flynedd oni bai fod Gweinidogion yn ceisio eu hymestyn trwy reoliadau. Mae rhai o **ddarpariaethau'r Bil** nad ydynt yn dod i ben ar ôl dwy flynedd. Mae'r darpariaethau hyn yn bennaf mewn perthynas ag indemniad, darpariaethau trosiannol a rhai darpariaethau technegol.

Am gyfnod dwy flynedd y Ddeddf, bydd gan Weinidogion y DU a Gweinidogion datganoledig **bwerau** i 'droi ymlaen ac i ffwrdd' y darpariaethau a gynhwysir yn y Ddeddf yn amodol ar rai eithriadau. Mae hyn yn golygu y byddant yn gallu

cyflwyno rheoliadau pan fyddant yn credu bod eu hangen, atal y rheoliadau hyn os bydd y sefyllfa'n newid a dod â'r rheoliadau i rym eto yn ddiweddarach pe bai eu hangen eto.

O ystyried ehangder a graddau'r pwerau newydd a'r pwerau dros dro yn y Bil i fynd i'r afael â Covid-19, mae'r Bil hefyd yn cynnwys nifer o ddarpariaethau gyda'r nod o roi rhywfaint o reolaeth neu derfynau ar y pwerau a ddarperir.

Mae darpariaethau hefyd wedi'u cynnwys ar gyfer goruchwyliaeth seneddol Gweinidogion y DU ar ddefnyddio pwerau mewn meysydd heb eu datganoli, ond ni chynhwyswyd unrhyw ddarpariaethau o'r fath ar gyfer Gweinidogion y gweinyddiaethau datganoledig. **Mae hyn yn golygu, fel y cafodd ei ddrafftio, nad oes unrhyw ofynion yn y Bil i Weinidogion Cymru adrodd i'r Cynulliad ar y ffordd y maent yn defnyddio eu pwerau.**

Mae nifer o welliannau wedi'u cyflwyno gan Aelodau Seneddol i geisio rhoi rhagor o reolaeth a therfynau ar y pwerau sydd wedi'u cynnwys yn y Bil.

Mae rhagor o wybodaeth am y cymalau penodol a'r gwelliannau arfaethedig i'w gweld isod:

Cychwyn

Bydd rhai o ddarpariaethau'r Bil yn dod i rym ar y diwrnod y caiff y Ddeddf ei phasio. Bydd eraill yn dod i rym pan fydd naill ai Gweinidogion y DU neu Weinidogion datganoledig yn pasio rheoliadau sy'n dod â hwy i rym.

Mae'r adrannau hynny a ddaw i rym drwy reoliadau wedi'u nodi yng Nghymal 73(2) o'r Bil. Mae'r rhain yn cynnwys rheoliadau mewn perthynas ag absenoldeb gwirfoddoli brys, deddfwriaeth iechyd meddwl a galluedd meddyliol a chofrestru marwolaethau a genedigaethau marw.

Rhoddir yr hyn a elwir yn bwerau gwneud rheoliadau 'cydamserol' i Weinidogion y DU a Gweinidogion Cymru. Mae hyn yn golygu bod gan Weinidogion y DU a Gweinidogion Cymru yr un pwerau ar gyfer gwneud rheoliadau mewn perthynas â Chymru. Os yw Gweinidogion y DU yn gwneud pwerau a restrir yng nghymal 73(2) o'r Bil mewn perthynas â Chymru, yna rhaid iddynt gael cydsyniad gan Weinidogion Cymru cyn gwneud hynny.

Bydd gan Weinidogion y DU a Gweinidogion Cymru y pwerau i gyflwyno rheoliadau at wahanol ddibenion, mewn gwahanol feysydd ac am wahanol

ddiwrnodau i ymateb i'r sefyllfa yn y wlad.

Pwerau i atal ac ailgychwyn darpariaethau yn y Ddeddf

Mae cymal 74 o'r Bil yn cynnwys pwerau i alluogi Gweinidogion y DU a Gweinidogion datganoledig, mewn meysydd cymhwysedd datganoledig, i droi darpariaethau yn y Bil 'ymlaen ac i ffwrdd', h.y. eu hatal a'u hailgychwyn.

Gallant eu hatal a'u hailgychwyn fwy nag unwaith yn ystod y ddwy flynedd y bydd y Ddeddf mewn grym. Byddant yn gallu atal a diwygio darpariaethau mewn gwahanol ffyrdd mewn gwahanol feysydd ac ar wahanol adegau. Mae

Memorandwm Pwerau Dirprwyedig y Bil yn nodi:

This on/off switch will be carried out by a type of commencement regulation, which means that it is simply made by a competent Minister, with no parliamentary procedure.

Mae hyn yn golygu na fydd rôl ffurfiol o ran gwaith craffu gan Senedd y DU na'r deddfwrfeydd datganoledig ar unrhyw reoliadau a wneir gan Weinidogion y DU neu Weinidogion datganoledig i droi'r darpariaethau yn y Bil 'ymlaen ac i ffwrdd'.

Mae rhai darpariaethau sydd wedi'u heithrio o'r pŵer cyffredinol 'ymlaen ac i ffwrdd' hwn. Nodir y rhain yn is-adran 6 o'r Cymal.

Y Ddeddf yn dod i ben a'r pŵer i newid pryd y daw i ben

O ystyried mai bwriad y Bil yw caniatáu ymateb amser-gyfyngedig i sefyllfa frys, bydd mwyafrif y darpariaethau yn y Bil yn dod i ben ar ôl dwy flynedd gyda dau eithriad.

Ni fydd rhai darpariaethau a restrir yng Nghymal 75(2) o'r Bil yn ddarostyngedig i drefniadau dod i ben. Fel y nodir uchod, mae hyn yn bennaf yn cynnwys y darpariaethau o ran indemniad, darpariaethau trosiannol a rhai darpariaethau technegol.

Yn ogystal, mae Cymal 76 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion y DU a Gweinidogion datganoledig newid y dyddiad dod i ben hwn o ddwy flynedd.

Mae cymal 76(1) o'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion y DU a Gweinidogion datganoledig gyflwyno rheoliadau fel bod darpariaethau yn y Bil yn dod i ben yn gynt na diwedd y cyfnod o ddwy flynedd os nad oes eu hangen. Byddai'r rheoliadau hyn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol a byddent yn destun pleidlais naill ai yn nau Dŷ'r Senedd neu yn y Cynulliad pe baent yn cael eu

gwneud gan Weinidogion Cymru.

Mae Cymal 76(2) o'r Bil yn rhoi pwerau i Weinidogion y DU a Gweinidogion datganoledig gyflwyno rheoliadau i ymestyn y darpariaethau yn y Bil y tu hwnt i'r cyfnod o ddwy flynedd am chwe mis pellach, ar sail dreigl. Mae hyn yn golygu, os bydd Senedd y DU neu ddeddfwrfa ddatganoledig yn cymeradwyo hynny, yna gallai'r rheoliadau fod mewn grym am lawer hirach na'r cyfnod cychwynnol o ddwy flynedd.

Bydd rheoliadau a wneir o dan yr adran hon yn cael eu gwneud naill ai o dan y weithdrefn gadarnhaol neu'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed'. Os daw rheoliadau i rym gan ddefnyddio'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' yna byddant yn dod i rym ar unwaith, ond byddai'n rhaid i Senedd y DU neu ddeddfwrfa ddatganoledig bleidleisio i'w cymeradwyo cyn pen 40 diwrnod busnes neu bydd y pwerau'n dod i ben.

Rhoddir pwerau gwneud rheoliadau 'cydamserol' i Weinidogion y DU a Gweinidogion Cymru o dan y cymal hwn. Os yw Gweinidogion y DU yn gwneud pwerau o dan y cymal hwn o'r Bil mewn perthynas â Chymru, yna rhaid iddynt gael cydsyniad gan Weinidogion Cymru cyn gwneud hynny.

Yn yr un modd â phwerau gwneud rheoliadau eraill a roddir i Weinidogion o dan y Bil hwn, bydd Gweinidogion yn gallu gwneud darpariaethau gwahanol ar gyfer gwahanol feysydd. Er enghraifft, darparu bod darpariaeth berthnasol yn y Bil yn cael ei hymestyn mewn un maes ond nid mewn meysydd eraill.

Bydd Gweinidogion hefyd yn gallu gwneud darpariaethau trosiannol, darpariaethau dros dro a darpariaethau arbed i'w galluogi i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a allai godi oherwydd bod y darpariaethau yn y Bil yn dod i ben yn gynharach na'r disgwyl neu'n cael eu hymestyn yn hirach na'r bwriad gwreiddiol.

Cymal 77: Pŵer i ddiwygio'r Ddeddf o ganlyniad i ddiwygiadau i is-ddeddfwriaeth

Mewn perthynas â Chymal 77, mae **Nodiadau Esboniadol** y Bil yn nodi:

Many of the provisions in this Bill operate by modifying the effect of pieces of secondary legislation. If underlying secondary legislation that the Bill modifies changes during the life of the Bill the modifications would no longer work properly. This clause therefore allows for the update of the modifications contained in the Bill in the event that the underlying legislation is changed. This ensure the measures in the Bill will still have the intended effect.

Pŵer cydamserol yw hwn a bydd gan Weinidogion y DU a Gweinidogion Cymru yr un pwerau mewn perthynas â Chymru. Os bydd Llywodraeth y DU yn pasio rheoliadau o dan y cymal hwn mewn perthynas â Chymru, yna rhaid iddi ofyn am gydsyniad gan Lywodraeth Cymru cyn gwneud hynny.

Cymal 78: Pŵer i wneud gwelliannau canlyniadol

Mae Cymal 78 yn rhoi pŵer i Weinidogion y DU a Gweinidogion datganoledig wneud newidiadau canlyniadol i unrhyw ddarn arall o ddeddfwriaeth fel ei bod yn cyd-fynd â'r Bil hwn. Mae hwn yn bŵer eang iawn. Hefyd, gall Gweinidogion y DU a Gweinidogion datganoledig ddirymu unrhyw newidiadau canlyniadol a wneir o dan y pŵer hwn i unrhyw ddarnau eraill o ddeddfwriaeth pan fydd unrhyw ddarpariaeth yn y Bil yn cael ei hatal gan ddefnyddio pwerau 'ymlaen ac i ffwrdd' y Gweinidogion neu pan fydd y Bil yn dod i ben.

Os bydd Gweinidogion yn diwygio darn o is-ddeddfwriaeth gan ddefnyddio'r pŵer hwn, yna mae modd defnyddio'r weithdrefn negyddol. Os yw Gweinidogion yn diwygio darn o ddeddfwriaeth sylfaenol, yna'r weithdrefn gadarnhaol neu'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed' a ddisgrifir yn adrannau'r papur hwn ar Cymalau 75-76 sy'n gymwys.

Pŵer cydamserol yw hwn a bydd gan Weinidogion y DU a Gweinidogion Cymru yr un pwerau mewn perthynas â Chymru. Os bydd Llywodraeth y DU yn pasio rheoliadau o dan y cymal hwn mewn perthynas â Chymru, yna rhaid iddi ofyn am gydsyniad gan Lywodraeth Cymru cyn gwneud hynny.

Gweithdrefnau ar gyfer rheoliadau penodol

Mae Cymalau 79-82 yn nodi'r gweithdrefnau y mae'n rhaid i Weinidogion y DU a Gweinidogion datganoledig eu dilyn wrth wneud rheoliadau penodol o dan y Bil hwn. Mae rhai o'r rhain wedi'u nodi uchod. Cymal 79, sy'n nodi'r gweithdrefnau ar gyfer Gweinidogion y DU, a Chymal 80, sy'n nodi'r gweithdrefnau ar gyfer Gweinidogion Cymru, fydd y mwyaf perthnasol i'r Cynulliad. Ar y cyfan, bydd naill ai gweithdrefn gadarnhaol neu weithdrefn gadarnhaol ddrafft yn gymwys i reoliadau sy'n cael eu cwmpasu gan y cymalau hyn. Mae rhagor o wybodaeth am y pwerau gwneud rheoliadau a ddarperir i Weinidogion o dan y Bil a'r weithdrefn sydd ynghlwm wrthynt i'w gweld yn y **Memorandwm Pwerau Dirprwyedig** sy'n cyd-fynd â'r Bil.

Goruchwyliaeth Senedd y DU

Mae Cymalau 83 ac 84 yn ymwneud â goruchwyliaeth seneddol ar y Bil. Mae Cymal 83 o'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol, mewn perthynas â'r holl ddarpariaethau heb eu datganoli yn y Bil, adrodd i Senedd y DU bob dau fis ar 'statws' y darpariaethau yn Rhan 1 o'r Bil. Rhaid i'r adroddiad gynnwys manylion ynghylch pa ddarpariaethau sydd mewn grym ar ddiwedd y cyfnod adrodd, unrhyw ddarpariaethau sydd wedi bod mewn grym ond sydd wedi'u hatal ar hyn o bryd, neu pryd y caiff y dyddiad dod i ben ar gyfer unrhyw ddarpariaethau ei newid. Os na fydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cyhoeddi adroddiad o fewn saith diwrnod busnes wedi i'r cyfnod adrodd ddod i ben (h.y. ar ddiwedd dau fis), yna mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud datganiad i egluro pam nad oes adroddiad wedi'i gyhoeddi.

Fel y'i drafftiwyd, nid yw'r Bil yn cynnwys dyletswydd i Weinidogion Cymru adrodd i'r Cynulliad bob deufis ar 'statws' y darpariaethau datganoledig sydd yn y Bil.

Os yw'r Bil yn dal i fod ar waith flwyddyn ar ôl iddo gael ei ddwyn i rym, yna mae'n rhaid i un o Weinidogion y DU gyflwyno cynnig yn y Senedd i ganiatáu ar gyfer dadl seneddol ar adroddiad 'un flwyddyn' ar statws darpariaethau'r Bil. 'Cynnig mewn termau niwtral' fydd y cynnig hwn, sy'n golygu y bydd yn gofyn i'r Senedd ystyried yr adroddiad ond i beidio â rhoi barn arno. Nid yw 'cynnig mewn termau niwtral' yn cael ei ddiwygio fel arfer.

Fel y'i drafftiwyd, nid yw'r Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyflwyno cynnig yn y Cynulliad i alluogi dadl ar adroddiad 'un flwyddyn' ar statws darpariaethau'r Bil.

4. Ymateb i'r Bil

4.1. Y goblygiadau o ran hawliau dynol

Mae gan y pwerau yn y Bil oblygiadau eang o safbwynt hawliau dynol pobl Cymru.

Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn ymgorffori'r hawliau sydd wedi'u cynnwys yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol¹ yng nghyfraith y DU. Mae hyn yn golygu ei bod yn anghyfreithlon i unrhyw awdurdod cyhoeddus weithredu mewn ffordd sy'n anghydnaws â hawliau dynol.

Gwnaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol ddatganiad o dan adran 19(1)(a) o Ddeddf Hawliau Dynol 1998 bod darpariaethau'r Bil, yn ei farn ef, yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU **femorandwm hawliau dynol ar wahân** ar 20 Mawrth 2020. Mae hyn yn cyflwyno'i asesiad ei hun o gydnawsedd darpariaeth y Bil â hawliau'r Confensiwn.

Rhanddirymiad mewn argyfyngau cyhoeddus

Mae'n bosibl o dan y Ddeddf Hawliau Dynol (Adran 14) a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (Erthygl 15) i wladwriaethau wneud rhanddirymiad (sy'n golygu optio allan) o rwymedigaethau hawliau dynol penodol yn ystod rhyfel neu argyfwng cyhoeddus arall sy'n bygwth bywyd y genedl.²

Mae **nifer o wladwriaethau** eisoes wedi gwneud rhanddirymiad o'r Confensiwn o ganlyniad i'r argyfwng coronafeirws, gan gynnwys Latfia, Armenia, Estonia, Moldofa a Rwmania. Nid yw Llywodraeth y DU wedi dweud y byddai'n gwneud rhanddirymiad o unrhyw ran o'r Confensiwn.

Cydbwyso'r hawl i fyw â hawliau eraill

Mae Erthygl 2 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn amddiffyn yr hawl i fyw. Mae hyn yn gosod rhwymedigaeth ragweithiol ar y llywodraeth i weithredu i amddiffyn pobl rhag coronafeirws, yn enwedig y rhai sydd fwyaf agored i niwed gan y feirws.

Er mwyn amddiffyn hawl pobl i fyw, mae'r Bil yn darparu'r pŵer i osod cyfyngiadau ar yr hawliau i ryddid, preifatrwydd ac i brotestio, ymhlith eraill.

Er bod llywodraethau'n cael ymyrryd â rhai hawliau er mwyn amddiffyn iechyd y cyhoedd, ni chaniateir ymyrryd ag eraill o gwbl (maent yn 'absoliwt') – fel yr hawl i fyw a'r gwaharddiad ar arteithio, a thriniaeth annynol neu ddiraddiol.

Mae hawliau a mathau eraill o rhyddid (fel yr hawl i breifatrwydd a rhyddid i gymdeithasu) yn 'amodol', sy'n golygu y gall llywodraethau ymyrryd â hwy am reswm penodol ('nod dilys').

Mae enghreifftiau o nodau dilys yn cynnwys amddiffyn iechyd, amddiffyn hawliau pobl eraill, a diogelwch y cyhoedd.

Rhaid i unrhyw ymyrraeth fod yn ddim mwy na'r hyn sy'n hollol angenrheidiol i gyflawni un o'r nodau (h.y. rhaid iddi fod yn gymesur). Mae'r Ddeddf Hawliau Dynol yn nodi bod yn rhaid i'r ymyrraeth fod yn angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd.

Rhoi pobl dan gadw

Mae'r hawl i ryddid yn hawl 'gyfyngedig'. Mae hyn yn golygu bod rhai amgylchiadau penodedig lle mae modd amddifadu pobl yn gyfreithlon o'u hawl i ryddid, gan gynnwys os gallant ledaenu afiechydon heintus.

Mae'r Bil yn rhoi pwerau i'r heddlu a swyddogion mewnfudo roi rhywun a allai fod yn heintus dan gadw am gyfnod cyfyngedig, a chymryd y person hwnnw i le addas i'w sgrinio a'i asesu. Caiff unigolyn a allai fod yn heintus ei ddiffinio fel rhywun sydd wedi'i heintio â choronafeirws neu a allai fod wedi'i heintio, neu sydd wedi bod mewn ardal heintiedig o fewn 14 diwrnod.

Mae Llys Hawliau Dynol Ewrop **wedi dweud** bod modd rhoi rhywun dan gadw yn gyfreithlon i atal y clefyd rhag lledaenu pan fydd yn amlwg bod perygl i iechyd neu ddiogelwch y cyhoedd, a phan fydd rhoi rhywun dan gadw yn ddewis olaf ar ôl i fesurau llai difrifol fod yn annigonol.

Gwnaeth Cyngor Ewrop **Ddatganiad o Egwyddorion yn ymwneud â thrin unigolion sydd wedi'u hamddifadu o'u rhyddid yn ystod y pandemig coronafeirws ar 20 Mawrth.**

Mae'r egwyddorion hyn yn pwysleisio bod yn rhaid cymryd pob cam posibl i amddiffyn iechyd a diogelwch pawb sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid, a bod yn rhaid i unrhyw gamau i amddifadu rhywun o'i ryddid fod â sail gyfreithiol, a bod yn angenrheidiol ac yn gymesur, a rhaid iddynt barchu urddas dynol a bod yn gyfyngedig o ran amser. Mae hefyd yn nodi y dylid sicrhau bod pobl sy'n colli eu

rhyddid yn cael cyswllt ystyrlon â rhywun arall bob dydd.

Gofal cymdeithasol

Mae'r Bil yn lleihau'r dyletswyddau ar awdurdodau lleol i gynnal asesiadau anghenion ac i ddiwallu anghenion gofal a chymorth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Yn lle hynny, mae'r Bil yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau lleol ddiwallu anghenion oedolyn am ofal a chymorth os yw'n angenrheidiol er mwyn osgoi mynd yn groes i hawliau'r oedolyn o dan y Confensiwn.

Mae Sefydliad Hawliau Dynol Prydain **yn nodi** bod y ddarpariaeth hon yn berthnasol i'r hawl i beidio â dioddef triniaeth annynol a diraddiol (Erthygl 3), yr hawliau i barchu llesiant corfforol a meddyliol, annibyniaeth, perthnasoedd, cyfranogiad cymunedol a'r cartref (Erthygl 8), a'r hawl i beidio â dioddef camwahaniaethu (Erthygl 14).

Mae Sefydliad Hawliau Dynol Prydain yn cwestiynu dull gweithredu'r Bil ar y sail a ganlyn:

- a) There are legal thresholds and tests which must be met when determining if a decision breaches (or may breach) Articles 3 or 8; and
- b) It is unrealistic to expect local authority staff to be able to make this decision. There is no mandatory human rights training for such staff, and very little integrated and consistent guidance.

Mae Sefydliad Hawliau Dynol Prydain hefyd yn nodi'r **cynigion** a gyflwynwyd gan y cwmni cyfreithiol 39 Essex Chambers ar gyfer gwelliannau i'r adran hon.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau roi sylw dyledus i Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Pobl Hŷn. Mae'r egwyddorion hyn yn cynnwys gofyniad i sicrhau bod gan bobl hŷn fynediad at:

- fwyd, dŵr, cysgod, dillad a gofal iechyd digonol a hynny drwy ddarpariaeth ar gyfer incwm, cymorth y teulu a'r gymuned a hunangymorth;
- gofal ac amddiffyniad gan deulu a chymuned, a
- gofal iechyd i'w helpu i gynnal neu adennill y lefel orau bosibl o lesiant corfforol, meddyliol ac emosïynol ac i atal neu ohirio dechrau salwch.

O ran Asesiadau Gofal Iechyd Parhaus y GIG, mae'r darpariaethau i ganiatáu

i ddarparwyr y GIG ohirio'r broses asesu ar gyfer gofal iechyd parhaus y GIG i unigolion sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty tan ar ôl i'r cyfnod argyfwng ddod i ben yn berthnasol yn Lloegr yn unig, nid yng Nghymru.

Mae Sefydliad Hawliau Dynol Prydain wedi codi pryderon difrifol ynghylch rhyddhau pobl sy'n agored i niwed heb asesiad gofal iechyd parhaus. Awgrymodd y dylid symleiddio'r broses yn hytrach na'i hatal.

Hefyd mynegodd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol bryderon y gallai adleoli gweithwyr gofal proffesiynol olygu bod perygl o adael pobl hŷn sydd eisoes yn agored i niwed a phobl â chyflyrau iechyd meddwl mewn sefyllfa fregus.

Amddiffyn gweithwyr iechyd proffesiynol

Bydd y Bil yn ei gwneud yn bosibl dod â gweithwyr iechyd sydd wedi ymddeol yn ôl i'r gweithlu i helpu'r GIG i ymdopi â phwysau'r ymateb i goronafeirws. Mae'r gweithwyr hyn yn debygol o fod yn hŷn ac felly'n fwy agored i niwed gan y feirws pe byddent yn cael eu rhoi ar y rheng flaen.

Mae yna **ddadl fod** yr hawl i fyw yn gorfodi'r llywodraeth i gynllunio'n effeithiol i amddiffyn bywydau ei phersonél GIG. Mae hyn yn arbennig o arwyddocaol o ystyried adroddiadau nad oes gan staff meddygol offer amddiffynnol personol digonol.

Gallai'r mater hwn gynnwys yr hawl i fyw, a gwahardd triniaeth annynol neu ddiraddiol.

Iechyd meddwl

Mae'r Bil yn llacio mesurau diogelwch i **roi pobl dan gadw yn unol â'r Ddeddf Iechyd Meddwl**. Mae hyn yn cynnwys gostyngiad yn nifer y meddygon sy'n ofynnol i lofnodi a yw person yn cael ei gadw o ddau i un, ac ymestyn a dileu terfynau amser lle mae gwasanaethau'n llai abl i ymateb.

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn **argymhell** mai dim ond cyn belled ag sy'n gwbl ofynnol y dylid ymestyn y trefniadau i lacio **mesurau diogelwch ar roi pobl dan gadw**, o ran amser a chwmpas, ac y dylid **monitro ac addasu** hyn yn rheolaidd.

Mae Sefydliad Hawliau Dynol Prydain **yn dweud** bod hyn yn golygu y gall pobl gael eu rhyddhau i'r gymuned yn gynnar (heb y gefnogaeth gywir) neu gael eu dal dan gadw am fwy o amser nag sy'n angenrheidiol. Gallai fod goblygiadau

i hawliau'r person i fywyd a rhyddid yn sgil hyn. Mae Sefydliad Hawliau Dynol Prydain yn awgrymu y dylid cynnal mesurau diogelwch i amddiffyn hawl pobl i ryddid, ond gyda phrosesau symlach.

Addysg

Gallai cyfarwyddiadau cau a pharhad dros dro olygu na fydd plant, myfyrwyr a disgyblion yn gallu cael mynediad i addysg am gyfnod dros dro, neu eu bod yn cael eu hatal rhag cael addysg dros dro.

Gellir cyfyngu ar yr hawl i addysg yn Erthygl 2 o BroTOCOL 1 i'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol at nod dilys. Mae dadansoddiad Llywodraeth y DU yn nodi bod lleihau trosglwyddiad coronafeirws rhwng rhieni, plant, myfyrwyr a gweithwyr addysg, ac amddiffyn iechyd a diogelwch y cyhoedd, yn nodau dilys.

Mater arall y tynnwyd sylw ato gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a dadansoddiad Llywodraeth y DU yw effaith anghymesur cau ysgolion ar ddisgyblion ag anabledau. Gallai'r mater hwn gynnwys yr hawl i addysg ynghyd â'r hawl i beidio â gwahaniaethu.

Cam-drin domestig

Mae **Cymorth i Fenywod** a'r **Comisiwn Cydraddoleb a Hawliau Dynol** ill dau yn tynnu sylw at y risg uwch o gam-drin domestig yn ystod cyfnod o ynysu, sy'n effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched. Bydd y lleoliadau iechyd ac addysgol sy'n cynnig ffordd o nodi'r mater hwn hefyd o dan bwysau cynyddol.

Gallai'r mater hwn gynnwys yr hawl i fyw, a gwahardd triniaeth annynol neu ddiraddiol.

Pwerau gwyliadwriaeth

Mae'r hawl i breifatrwydd yn amddiffyn rhag ymyrraeth ym mywydau personol pobl, gan gynnwys gwyliadwriaeth ddiangen gan y wladwriaeth. Mae hon yn hawl amodol, felly gall y Llywodraeth ymyrryd â hi i amddiffyn diogelwch cenedlaethol.

Mae'r Bil yn gwneud darpariaethau i'r Llywodraeth benodi 'comisiynwyr barnwrol dros dro', sy'n goruchwyllo gweithgaredd gwyliadwriaeth gan asiantaethau cudd-wybodaeth. Fe wnaeth Llywodraeth y DU **ddweud** bod hyn yn 'hanfodol' ar gyfer 'diogelwch cenedlaethol' – gyda **rhai** yn awgrymu bod hyn yn dangos bod Llywodraeth y DU yn rhagweld aflonyddwch cyhoeddus o ganlyniad i ynysu hirfaith.

Digwyddiadau ac ymgasglu cyhoeddus

Mae'r Bil hefyd yn caniatáu i'r llywodraeth wahardd digwyddiadau ac ymgasglu cyhoeddus i atal y clefyd rhag lledaenu. Gallai hyn fod â goblygiadau sylweddol i brotest wleidyddol, sy'n cael ei gwarchod gan yr hawliau i ryddid i fynegi barn a rhyddid i ymgynnull. Ond mae'r hawliau hyn yn rhai amodol, sy'n golygu y gall llywodraethau gymryd camau cymesur i'w cwtdogi i amddiffyn iechyd y cyhoedd.

Marwolaethau

Mae'r Bil yn golygu nad oes angen cynnal cwest rheithgor pan fydd achos marwolaeth unigolyn wedi'i restru fel Covid-19. Mae **cyfraith achosion** Llys Hawliau Dynol Ewrop yn dangos bod rhwymedigaeth ar lywodraethau i gynnal ymchwiliad llawn i unrhyw farwolaeth sy'n digwydd dan gadw neu yn y ddalfa, neu lle gallai'r wladwriaeth fod yn gysylltiedig. Gallai crwner barhau i arfer disgresiwn i gynnal cwest rheithgor lle mae o'r farn bod rheswm digonol dros wneud hynny.

Achosion troseddol

Mae'r Bil yn ehangu argaeledd gwrandawriadau fideo a sain mewn achosion troseddol, a allai gael effaith ar yr hawl i gael gwrandawriad teg. Mae **dadansoddiad** Llywodraeth y DU o'r farn bod digon o fesurau diogelwch i sicrhau na chaiff yr hawl hon ei thorri

Ond **dywedodd** y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol fod pobl ag anabledd dysgu neu sydd ag afiechyd meddwl yn ei chael yn anodd cymryd rhan llawn mewn achosion barnwrol gan ddefnyddio cysylltiadau fideo a sain, ac mae'n argymhell bod yn rhaid gwneud addasiadau priodol ar eu cyfer yn ystod y cyfnod hwn.

Etholiadau

Mae'r Bil yn caniatáu gohirio etholiadau, sydd i'w cynnal rhwng y dyddiad y daw'r cymal i rym a 5 Mai 2021. Y dyddiad ar gyfer etholiad cyffredinol arferol nesaf Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw 6 Mai 2021, sydd y tu allan i'r amserlen yn y Bil.

Mae Erthygl 3 o Brotocol 1 (yr hawl i etholiadau rhydd) y Comisiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn ei gwneud yn ofynnol i bob dinesydd gael ei drin yn gyfartal wrth arfer ei hawl i bleidleisio. Mae **dadansoddiad** Llywodraeth y DU yn nodi (mewn perthynas ag unrhyw etholiadau sy'n cael eu gohirio o dan y ddarpariaeth hon) bod modd cyfiawnhau ymyrraeth ag A3P1 ac, o dan yr amgylchiadau

presennol, bod cyfiawnhad clir a chryf dros ohirio'r broses ganfasio.

Effaith ar gydraddoldeb a pheidio â gwahaniaethu

Mae'r **Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol** yn nodi, er nad yw'r feirws yn gwahaniaethu, y bydd yn effeithio ar bobl mewn gwahanol ffyrdd. Dylid rhoi blaenoriaeth i'r rheini y mae'r effaith uniongyrchol arnynt yn fwyaf difrifol, sef yn fwy tebygol pobl hŷn a'r rhai â chyflyrau iechyd sylfaenol, a'r bobl sy'n gofalu amdanynt.

Mae hefyd yn dweud y bydd mesurau i liniaru caledi ariannol yn hanfodol i weithwyr economi gig – sydd ag ychydig iawn o amddiffyniadau o hyd mewn cyfraith cyflogaeth, ac sy'n fwy tebygol o fod yn iau, o leiafrif ethnig, neu sydd ag ymrwymtiadau gofalu.

Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol hefyd yn tynnu sylw at y ffaith mai menywod sy'n dal i ysgwyddo mwyafrif y cyfrifoldebau gofalu am blant a theulu hŷn. Gydag ysgolion a meithrinfeydd bellach yn cau i'r mwyafrif o blant, dim ond cynyddu y bydd yr angen am waith di-dâl o'r fath dros yr wythnosau i ddod.

Goruchwylio a monitro

Mae Llywodraeth Cymru yn aml yn dweud mai cydraddoldeb a hawliau dynol yw ei gwerthoedd craidd. Mewn perthynas â hawliau dynol, bydd angen goruchwylio a monitro'r defnydd o'r pwerau yn y Bil hwn gan Weinidogion Cymru i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio mewn ffordd gymesur wrth geisio 'nod dilys'.

Nid yw'n glir eto pa rôl y bydd y Cynulliad yn ei chwarae wrth fonitro'r defnydd o'r pwerau hyn gan Weinidogion Cymru yn ystod y pandemig i sicrhau nad yw hawliau dynol pobl Cymru yn cael eu cyfyngu'n ddiangen.

Mae ASau a sefydliadau hawliau dynol wedi mynegi pryderon ynghylch y cymal machlud o ddwy flynedd. Mae **Sefydliad Hawliau Dynol Prydain** yn cymharu'r tymor dwy flynedd â'r tymor adnewyddu 30 diwrnod y darperir ar ei gyfer gan Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl 2004.

Bydd Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau datganoledig yn gallu troi'r pwerau newydd yn y ddeddfwriaeth 'ymlaen' pan fydd eu hangen (a'u troi i ffwrdd eto pan na fydd eu hangen mwyach).

Ar 19 Mawrth, cyhoeddodd **Cyd-bwyllgor Hawliau Dynol** Senedd y DU y bydd yn craffu ar ymateb Llywodraeth y DU i COVID-19, gan gynnwys y Bil Coronafeirws.

Mae'r Cyd-bwyllgor wedi cyhoeddi a **papur briffio**, sy'n nodi goblygiadau'r feirws i hawliau dynol.

5. Goblygiadau ariannol y Bil

Mae'r Bil Coronafeirws yn un dros dro, sy'n galluogi deddfwriaeth, felly mae Llywodraeth y DU wedi dweud mai sero fydd y costau ariannol. Mae'r Nodiadau Esboniadol yn nodi bod goblygiadau ariannol pendant y mesurau a gyflwynir yn y Bil yn dibynnu ar ddifrifoldeb ac amseriad y pandemig, yn ogystal â daearyddiaeth ei ddatblygiadau. Mae'n mynd ymlaen i egluro nad yw'n bosibl roi union amcangyfrifon o wariant ar hyn o bryd. Mae'n nodi:

Government is committed to ensuring that the provisions in this Bill are sufficiently funded to ensure our public services, people and business are equipped to manage the effects of the pandemic.

Mae'r Bil yn cynnwys adran ar gymeradwyaeth y Senedd ar gyfer costau ariannol neu ar gyfer taliadau a osodir, gan nodi: "the Bill requires a money resolution because Ministers of the Crown, government departments and other public authorities will incur significant expenditure as a result of the Bill". Mae Cymal 72 o'r Bil yn ymwneud â darpariaeth ariannol.

Ar 16 Mawrth 2020, **cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys** y byddai Llywodraeth y DU yn darparu o leiaf £1.5 biliwn i'r gweinyddiaethau datganoledig yn eu hymateb i COVID-19. Mae hyn yn cynnwys £475 miliwn i Lywodraeth Cymru, a gyfrifwyd drwy Fformiwla Barnett. Mae'r cyllid hwn yn rhan o gynllun ymateb £12 biliwn Llywodraeth y DU.

Dywedodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru: "we will continue to work closely with the Welsh Government to ensure the money reaches those who need it."

Ar 19 Mawrth, **cyhoeddodd Llywodraeth Cymru** becyn cymorth o £1.4 biliwn i fusnesau, gyda'r bwriad o gefnogi busnesau bach yn ogystal â'r rheini yn y sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch yng Nghymru.

Gan fod y symiau canlyniadol o fesurau ardrethi busnes yn Lloegr yn seiliedig ar Fformiwla Barnett, wedi'u cyfrifo gan ddefnyddio cyfran poblogaeth Cymru, ni fydd y swm y bydd Llywodraeth Cymru yn ei gael o reidrwydd yn adlewyrchu cost cyflwyno'r un polisiau yng Nghymru.

6. Y camau nesaf

Mae'r Bil yn rhan o ymdrech ar y cyd ledled y DU i fynd i'r afael â COVID-19 ac mae'n mynd drwy'r Senedd yn gyflym dros ben. Bydd cyfle i Aelodau'r Cynulliad graffu ar y Bil yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 24 Mawrth 2020.

Mae Cymal 73(1) yn nodi y bydd darpariaethau'r Bil – ac eithrio'r rhai a restrir yng Nghymal 73(2) – yn cychwyn ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol. Yn ei chrynodeb o'r Bil, mae Llywodraeth y DU yn nodi ei disgwyliad y bydd hyn yn digwydd, ac y bydd y darpariaethau'n dechrau dod i rym o ddiwedd y mis hwn.

Bydd y Bil yn cael ei ail ddarlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin ddydd Llun 23 Mawrth 2020. Mae nifer o welliannau wedi cael eu cyflwyno:

Gwelliannau i Ran 2

Mae ASau wedi cyflwyno nifer o welliannau sy'n ceisio cyfyngu ymhellach ar y pwerau y mae'r Bil yn eu rhoi i Weinidogion y DU a Gweinidogion datganoledig. Maent wedi cael cefnogaeth drawsbleidiol a byddant yn cael eu trafod yn y Senedd ar 23 Mawrth.

Ymhlith y gwelliannau a gyflwynwyd mae:

- Gwelliant a fyddai'n ceisio sicrhau bod darpariaethau'r Bil yn dod i ben cyn pen chwe mis oni bai bod rheoliadau sy'n ceisio eu hymestyn am gyfnod arall o chwe mis yn cael eu pasio gan ddau Dŷ'r Senedd.
- Gwelliant sy'n ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion y DU ail-ofyn am gymeradwyaeth y Senedd i barhad y Ddeddf ar ôl 6, 12 a 18 mis, a hynny drwy gynnig yn y Senedd.
- Gwelliant a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i ddadl gael ei chynnal yn brydlon ar yr adroddiadau 'statws' i'w cyhoeddi gan yr Ysgrifennydd Gwladol bob dau fis ac i beth o ddarpariaeth y Bil ddod i ben os bydd Tŷ'r Cyffredin yn pleidleisio yn erbyn cynnig perthnasol ar adroddiad statws.

Mae gwelliant cyffredinol pellach wedi cael ei gyflwyno sy'n galw ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod gan bawb yn y DU fynediad at hanfodion bywyd, gan gynnwys bwyd, dŵr, tanwydd, dillad, incwm a thai yn ystod yr argyfwng coronafeirws.

Disgwylir i'r Bil orffen ei daith trwy ddau Dŷ'r Senedd erbyn 26 Mawrth.

Bydd mwyafrif y darpariaethau yn y Bil yn para am ddwy flynedd ond gellir dod

â nhw i ben yn gynt neu eu hymestyn am gyfnodau pellach o chwe mis pe bai Gweinidogion y DU neu Weinidogion datganoledig yn credu bod hynny'n angenrheidiol.